------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 29 Ebrill 2024

Amser: 13.00


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru


## Hybrid

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(13:00 - 13.05)

**2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 3, 10, 11 and 12**

(13.05 - 13.10)

**3 Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Briffio**

(13.10 - 13.30) (Tudalennau 1 - 11)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-24 - Papur 1a - Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-13-24 - Papur 1b - Nodyn cyngor cyfreithiol atodol [Saesneg yn unig]

**4 Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Sesiwn dystiolaeth**

(13.30 - 14.30) (Tudalennau 12 - 84)

Jane Hutt MS, Trefnydd a'r Prif Chwip

William Whiteley, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diwygio'r Senedd, Llywodraeth Cymru

Anna Hind, Uwch-gyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol), fel y'i cyflwynwyd

[Memorandwm Esboniadol]

[Datganiad y Llywydd: 11 Mawrth 2024]

[Datganiad o Fwriad y Polisi]

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-24 – Papur 2 – Papur Briffio [Saesneg yn unig]

LJC(6)-13-24 – Papur 3 – Papur briffio gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd [Saesneg yn unig]

LJC(6)-13-24 – Papur 4 – Llythyr gan y Bwrdd Taliadau i'r Pwyllgor Biliau Diwygio, 12 Ebrill 2024

LJC(6)-13-24 – Papur 5 – Llythyr gan y Pwyllgor Biliau Diwygio at y Bwrdd Taliadau, 22 Mawrth 2024

LJC(6)-13-24 – Papur 6 – Llythyr gan y Llywydd at y Pwyllgor Biliau Diwygio, 15 Ebrill 2024

LJC(6)-13-24 – Papur 7 – Llythyr gan y Pwyllgor Biliau Diwygio at y Llywydd, 22 Mawrth 2024

LJC(6)-13-24 – Papur 8 – Llythyr gan y Llywydd at y Pwyllgor Biliau Diwygio, 15 Mawrth 2024

LJC(6)-13-24 – Papur 9 – Llythyr gan y Llywydd, 11 Mawrth 2024

**Egwyl**

(14.30 - 14.35)

## 5 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.35 - 14.40) (Tudalen 85)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-24 – Papur 10 – Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**5.1 SL(6)482 – Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol a Chymwysterau Athrawon Addysg Bellach) (Cymru) 2024**

## 6 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.40 - 14.45)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**6.1 SL(6)479 - Rheoliadau Archwilwyr Meddygol (Cymru) 2024**

(Tudalennau 86 - 89)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-24 - Papur 11 - Adroddiad drafft

LJC(6)-13-24 - Papur 12 - Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 15 Ebrill 2024

**6.2 SL(6)480 - Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 90 - 91)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-24 - Papur 13 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**6.3 SL(6)481 - Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 92 - 93)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-24 - Papur 14 - Adroddiad drafft

## 7 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

(14.45 - 14.50)

**7.1 SL(6)477 – Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 94 – 96)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-24 – Papur 15 – Adroddiad

LJC(6)-13-24 – Papur 16 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 8 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(14.50 – 14.55)

**8.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol**

(Tudalen 97)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-24 – Papur 17 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach, 22 Ebrill 2024

**8.2 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygiadau Amrywiol) 2024**

(Tudalennau 98 – 101)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-24 – Papur 18 – Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 23 April 2024

LJC(6)-13-24 – Papur 19 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 25 April 2024

**8.3 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 102 – 105)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-24 – Papur 20 – Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 23 Ebrill 2024

LJC(6)-13-24 – Papur 21 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024

**8.4 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 106 – 107)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-24 – Papur 22 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024

## 9 Papurau i'w nodi

(14.55 – 15.00)

**9.1 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet: Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022**

(Tudalennau 108 – 112)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-24 – Papur 23 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, 19 Ebrill 2024

LJC(6)-13-24 – Papur 24 – Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 19 Mawrth 2024

LJC(6)-13-24 – Papur 25 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 6 Mawrth 2024

**9.2 Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Diweddariad ar gynigion i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd cyflenwi weips gwlyb sy'n cynnwys plastigau a fêps untro**

(Tudalennau 113 – 115)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-24 – Papur 26 – Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 22 Ebrill 2024

**9.3 Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Y diweddaraf am ddatblygu Cynllun Dychwelyd Ernes**

(Tudalennau 116 - 119)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-24 - Papur 27 - Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 25 Ebrill 2024

## 10 Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Trafod y dystiolaeth

(15.00 - 15.20)

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion

(15.20 - 15.50) (Tudalennau 120 - 142)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-24 - Papur 28 - Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-13-24 - Papur 29 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio): Adroddiad drafft

(15.50 - 16.05) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-24 - Papur 30 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

—

**Independent Remuneration Board of the Senedd**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Taliadau@senedd.cymru
bwrddtaliadau.cymru
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Remuneration@senedd.wales
remunerationboard.wales
0300 200 6565

David Rees AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Biliau Diwygio

12 Ebrill 2024

Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): tystiolaeth ysgrifenedig

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Mawrth a'r cyfle i gyfrannu at waith craffu'r Pwyllgor Biliau Diwygio ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol).

Mae eich llythyr yn nodi nifer o gwestiynau sy'n ymwneud â rhan y Bwrdd yn y gwaith paratoi ar gyfer y Bil hwn ynghyd ag a fyddai'r Bwrdd yn ystyried goblygiadau'r Bil ar gyfer materion o fewn cylch gorchwyl y Bwrdd a sut y byddai'n gwneud hynny.

Rydw i wedi nodi fy atebion i'r cwestiynau hyn mewn atodiad i'r llythyr hwn.

Yn gywir,

**Dr Elizabeth Haywood,**
**Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. | We welcome correspondence in Welsh or English.*

# Atodiad A: Ymateb y Bwrdd Taliadau i Gwestiynau'r Pwyllgor Biliau Diwygio

Y Pwyllgor Biliau Diwygio: Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

**Ebrill 2024**

1. **Nodwn nad yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru sy'n cyd-fynd â Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn cynnwys unrhyw gostau ychwanegol i Gomisiwn y Senedd (gan gynnwys mewn perthynas â chyflogau a lwfansau Aelodau). Pa ran y mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol wedi'i chael yn natblygiad yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol? A allwch gadarnhau nad oes unrhyw gostau neu arbedion mesuradwy neu anfesuradwy a ragwelir mewn perthynas â chyflogau a lwfansau Aelodau sy'n gysylltiedig â Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)?**

   1.1. Nid yw'r Bwrdd wedi cyfrannu o gwbl at y broses o ddatblygu Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru, ond o ystyried diben y Bil a'r effaith fach y byddai ei ddarpariaethau yn ei chael ar y Penderfyniad, mae hyn i'w ddisgwyl.

   1.2. Yn seiliedig ar y Bil, y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd, nid yw'r Bwrdd yn rhagweld unrhyw gostau neu arbedion mesuradwy neu anfesuradwy sylweddol mewn perthynas â chyflogau a lwfansau Aelodau mewn cysylltiad â'r Bil. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r Penderfyniad ar gyfer cynyddu maint y Senedd eisoes wedi'u hadlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ac maent yn seiliedig ar uwchraddio'r darpariaethau presennol yn y Penderfyniad.

   1.3. Darperir ar hyn o bryd ar gyfer ystod o Gymorth Ychwanegol i Aelodau yn y Penderfyniad, gan gynnwys (3A.3) cymorth i Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofal plant a chyfrifoldebau gofal eraill a (3A.4) cymorth i Aelodau ar absenoldeb rhiant. Mae'r Penderfyniad (4.4.3h) hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer costau llety ychwanegol i'r Aelodau hynny sydd â chyfrifoldeb i ofalu am ddibynnydd sydd fel arfer yn byw gyda nhw yn ardal Caerdydd. Mae Pennod 3A wedi'i chynllunio i fod yn ymatebol i anghenion sy'n newid a gall costau a hawlir o dan y bennod hon newid yn ystod tymor y Senedd, neu flwyddyn ariannol, fel sy'n briodol i ddiwallu amgylchiadau neu anghenion newidiol Aelodau.

2. **Pan wnaethoch ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 30 Tachwedd 2023, dywedoch y byddai'r Bwrdd yn trafod ei adolygiad thematig o gyflogau a chymorth personol yr Aelodau cyn bo hir. O ystyried y cynnydd yn nifer a chyfran y menywod a gaiff eu hethol i'r Senedd y mae gan Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) y nod o'i gyflawni, pa asesiad y mae'r Bwrdd wedi'i wneud o lefel ac effeithiolrwydd y lwfans**

**ariannol a phecyn cymorth presennol ar gyfer Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu?**

2.1. Ymgynghorwyd ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer adolygiad thematig y Bwrdd o gyflogau a chymorth personol Aelodau yn ystod mis Rhagfyr 2023 a mis Ionawr 2024 ac maent wedi'u cynnwys yn Atodiad B er gwybodaeth. Mae'r gwaith hwn yn dechrau yn Chwarter 1 2024-25. Bydd unrhyw gynigion sy'n deillio o'r adolygiad hwn yn destun ymgynghori cyn cyhoeddi'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd.

2.2. Bydd yr Adolygiad yn ystyried cyflogau a chymorth personol Aelodau, gan gynnwys y darpariaethau presennol a nodir ym Mhennod 3A o'r Penderfyniad, sy'n cynnwys cymorth i Aelodau anabl, cymorth ar gyfer cyfrifoldebau gofalu a chymorth i Aelodau ar absenoldeb rhiant. At hynny, mae darpariaethau ar gyfer Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu ym Mhennod 4, sy'n ymwneud â gwariant ar lety preswyl (4.4.4 h), a fydd yn cael eu hadolygu hefyd.

2.3. Bydd yr adolygiad yn ystyried data perthnasol i ddeall y defnydd o'r darpariaethau hyn, yn adolygu'r mesurau hyn yn unol ag arferion gorau, yn adolygu llenyddiaeth ddiweddar ar seneddau cynhwysol sy'n ystyriol o deuluoedd, ac yn ymgysylltu ag Aelodau i ddeall yn well beth sy'n gweithio'n dda ac a oes unrhyw rwystrau neu heriau y dylai'r Bwrdd geisio mynd i'r afael â hwy ar gyfer y Seithfed Senedd.

2.4. Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant hefyd yn ystyriaeth ar draws holl adolygiadau thematig y Bwrdd i sicrhau bod y Penderfyniad nid yn unig yn effeithio'n deg ac yn gyfartal ar Aelodau ond hefyd yn gwneud yr hyn sy'n bosibl i hyrwyddo cydraddoldeb.

**3. Pa ystyriaeth a roddwyd i sut y gellid gweithredu o fewn cylch gwaith y Bwrdd i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n deillio o ffyrdd o weithio yn y Senedd a allai fel arall atal menywod a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol rhag sefyll mewn etholiad neu a allai gyfyngu ar hyd eu cyfnod yn y rôl?**

3.1. Fel y nodwyd uchod, mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ystyriaeth ar draws holl adolygiadau thematig y Bwrdd yn ogystal â'i waith o ddydd i ddydd.

3.2. Rydym hefyd wedi nodi uchod sut y bydd yr adolygiad thematig penodol sy'n ymwneud â chymorth personol Aelodau yn cael ei gynnal, sy'n cynnwys darpariaethau i gefnogi Aelodau anabl a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu.

3.3. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o sut y gall ffyrdd newidiol o weithio a Senedd hybrid newid anghenion Aelodau a'u staff, a sut y gallai hyn ryngweithio â materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd nifer o'r materion hyn yn ymwneud â threfniadau gweithdrefnol neu'r ystâd neu gyfleusterau seneddol, a fydd yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Senedd yn y drefn honno. Bydd yr ystyriaethau hyn yn llywio'r adolygiad Ffyrdd o Weithio sy'n cael ei arwain gan Syr David Hanson, sy'n ystyried sut y gallai Aelodau ymgysylltu a gweithio o'u hetholaethau ac oddi mewn iddynt.

3.4. Mae trefniadau rhannu swydd wedi cael ei ystyried fel mater a allai helpu i leihau rhwystrau rhag cymryd rhan. Mae'r Bwrdd yn nodi bod y Pwyllgor Biliau Diwygio yn ei adroddiad Cyfnod 1 wedi argymell y dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried cynnig sefydlu pwyllgor newydd yn y Senedd hon i ystyried materion sy'n ymwneud â threfniadau rhannu swydd a dal swydd dros dro, neu ofyn i un o bwyllgorau'r Senedd â chylch gorchwyl perthnasol i wneud gwaith o'r

fath. Byddai'r Bwrdd yn ystyried y goblygiadau ar gyflogau Aelodau neu gyflogau uwch-ddeiliaid swyddi ychwanegol pe bai deddfwriaeth neu unrhyw benderfyniad gan y Senedd yn cyflwyno trefniadau rhannu swydd.

3.5. Ysgogiad arall y bydd y Bwrdd yn ei ystyried wrth iddo wneud penderfyniadau ar gyfer y Seithfed Senedd yw lefel yr hyblygrwydd y gellir ei roi i Aelodau o dan y Penderfyniad. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod angen i'r Penderfyniad roi digon o hyblygrwydd i Aelodau ymateb i'w hanghenion gwahanol neu newidiol eu hunain.

## 4. Sut mae'r Bwrdd yn bwriadu ymgysylltu ag Aelodau a rhanddeiliaid ynghylch newidiadau posibl i'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd gyda'r nod o gefnogi menywod a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol?

4.1. Bydd y Bwrdd yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer y Seithfed Senedd, fel sy'n ofynnol gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010. Bydd hefyd yn parhau i ymgysylltu ag Aelodau a staff cymorth drwy grwpiau cynrychioliadol a sesiynau galw heibio i Aelodau. Bydd gwaith ymgynghori ac ymgysylltu hefyd yn cael ei wneud ar wahanol adegau wrth i adolygiadau thematig fynd rhagddynt. Bydd y Bwrdd yn annog yr Aelodau i ddefnyddio'r cyfleoedd hyn i rannu eu safbwyntiau a thystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio a'r hyn y gellid ei wneud yn wahanol, yn enwedig yng nghyd-destun diwygio'r Senedd.

4.2. Bydd y Bwrdd hefyd yn ymgynghori â rhanddeiliaid ehangach, yn enwedig y rhai sydd ag arbenigedd ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, felly bydd yn cymryd camau i annog pobl a sefydliadau i gyfrannu at ymgynghoriadau ar gynigion polisi a'r Penderfyniad drafft ar gyfer y Seithfed Senedd.

Y Bwrdd Taliadau

# Adolygiad thematig
# Taliadau a Chymorth Personol i'r Aelodau
# Cylch Gorchwyl

**Mawrth 2024**

## Diben

1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cylch gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad Thematig o Daliadau a Chymorth Personol i'r Aelodau.

## Amcanion

2. Bydd yr adolygiad yn ceisio sicrhau bod y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd yn cyd-fynd â'r amcanion statudol a ganlyn:

- sicrhau bod y tâl a gaiff Aelodau o'r Senedd
  - yn adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni, a
  - sicrhau nad yw, am resymau ariannol, yn atal pobl sydd â'r ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ymgeisio i gael eu hethol i'r Senedd,
- sicrhau bod gan Aelodau o'r Senedd adnoddau digonol i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau fel Aelodau.

## Egwyddorion

3. Mae holl waith y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn cael ei seilio ar gyfres o egwyddorion:

- Dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau a roddir i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau

- Rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru

- Rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

## Cylch Gorchwyl

4. Bydd yr adolygiad yn ystyried cyflogau'r Aelodau, cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol, cymorth personol, costau teithio a llety preswyl yr Aelodau, a chymorth i Aelodau sy'n gadael eu swydd. Er nad yw costau teithio a llety preswyl yn dâl nac yn gydnabyddiaeth ariannol, maent wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn gan eu bod yn helpu i gydbwyso ymrwymiadau personol ac ymrwymiadau gofalu'r Aelodau, lle bo hynny'n berthnasol, gan eu galluogi a'u cynorthwyo i ddiwallu eu hanghenion teithio a llety cysylltiedig â'u gwaith.

5. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio'n benodol ar roi cymorth personol i'r Aelodau er mwyn ceisio lleihau rhwystrau, hyrwyddo hygyrchedd a hybu amrywiaeth a chydraddoldeb yn y Senedd newydd a sicrhau cyfnod pontio didrafferth i fywyd ar ôl y Senedd.

6. Bydd hefyd yn ystyried materion yn ymwneud â meysydd cymorth fel hyblygrwydd, niwtraliaeth garbon, a diogelwch a lles yr Aelodau.

7. Bydd yr adolygiad yn cael ei rannu'n dair ffrwd waith wahanol:

   - **Ffrwd waith un:** Tâl ac Amodau'r Aelodau (sy'n ymdrin â darpariaethau ym Mhennod 3 a 3A o'r Penderfyniad ar Dâl a Lwfansau'r Aelodau)

   - **Ffrwd waith dau:** Llety Preswyl a Theithio (Penodau 4 a 5 o'r Penderfyniad)

   - **Ffrwd waith tri:** Aelodau sy'n gadael eu swyddi (Pennod 9 o'r Penderfyniad)

8. Wrth gynnal yr adolygiad, bydd y Bwrdd yn:

   - Ystyried unrhyw newidiadau i rolau a chyfrifoldebau'r Aelodau yn nhymhorau diweddar y Senedd
   - Ystyried goblygiadau diwygio'r Senedd o ran nifer yr Aelodau, eu cyfrifoldebau a'r amrywiaeth o 'ddeiliaid swyddi ychwanegol' a fydd yn gallu hawlio cyflog ychwanegol
   - Ceisio barn yr Aelodau am unrhyw newidiadau angenrheidiol i Benderfyniad y Seithfed Senedd
   - Ceisio barn Comisiwn y Senedd, y cyhoedd a rhanddeiliaid, casglu tystiolaeth gymharol ac ystyried methodolegau a ddefnyddir yn seneddau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol.

**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
—
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Dr Elizabeth Haywood
Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

22 Mawrth 2024

Annwyl Elizabeth

Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): tystiolaeth ysgrifenedig

Cyfeiriwyd Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ('y Bil') at y Pwyllgor Biliau Diwygio ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 ar ei egwyddorion cyffredinol. Rydym yn ysgrifennu i ofyn am dystiolaeth ysgrifenedig gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol i lywio ein gwaith. Yn benodol, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r cwestiynau isod.

Wrth ofyn y cwestiynau hyn, rydym yn cydnabod bod cyd-ddibyniaeth rhwng cynllun a chost y Bil hwn a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) fel pecyn o ddiwygiadau. Fodd bynnag, ein rôl ni yw craffu ar bob Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn ôl eu rhinweddau, yn enwedig gan nad yw'r darpariaethau cychwyn yn y Bil yn nodi ym mha etholiad cyffredinol y Senedd y bydd darpariaethau'r Bil yn dod i rym.

1. Rydym yn nodi nad yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi unrhyw gostau ychwanegol i Gomisiwn y Senedd (gan gynnwys mewn perthynas â chyflogau a lwfansau'r Aelodau). Pa ran y mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol wedi'i chwarae o ran datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol? A allwch chi gadarnhau na ragwelir unrhyw gostau neu arbedion mesuradwy neu anfesuradwy mewn perthynas â chyflogau a lwfansau'r Aelodau sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn?

2. Pan wnaethoch chi ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 30 Tachwedd 2023, dywedoch chi y byddai'r Bwrdd yn trafod ei adolygiad thematig o gyflogau a chymorth personol yr Aelodau yn fuan. O ystyried y cynnydd yn nifer a chyfran y menywod sy'n cael eu hethol i'r Senedd mae'r Bil yn ceisio'i gyflawni, pa asesiad y mae'r Bwrdd wedi'i wneud o lefel ac effeithiolrwydd y lwfans ariannol a'r pecyn cymorth presennol ar gyfer Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofal plant neu ofalu?

3. Pa ystyriaeth a roddwyd i’r ffordd y gellid defnyddio unrhyw ysgogiadau o fewn cylch gwaith y Bwrdd i fynd i’r afael â rhwystrau sy’n deillio o ffyrdd o weithio’r Senedd a allai fel arall atal menywod a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol rhag sefyll mewn etholiad neu gyfyngu ar hyd eu cyfnod yn y rôl?

4. Sut mae’r Bwrdd yn bwriadu ymgysylltu â’r Aelodau a rhanddeiliaid ar newidiadau posibl i’r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd sydd â’r nod o gefnogi menywod a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb erbyn 12 Ebrill 2024. Mae copi o’r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Pwyllgor Cyllid a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, ac at y Prif Weinidog.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

15 Ebrill 2024

Annwyl David,

**Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 22 Mawrth 2024, ac am y cyfle i gynorthwyo'r Pwyllgor yn ei waith craffu ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ("Bil SC(RhYE)"). Amgaeaf fy ymateb i'r cwestiynau a godwyd yn eich llythyr.

Fel y gwyddoch, fel Llywydd, gosodais fy natganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â Bil SC(RhYE) (fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.4) ar 11 Mawrth 2024. Yn unol â'r cais, dyma ysgrifennu atoch yn awr yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd Comisiwn y Senedd, a Chadeirydd Pwyllgor Busnes y Senedd. Mae'r wybodaeth amgaeëdig, felly, yn cael ei darparu'n annibynnol ar fy natganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol. Yn yr un modd, ni ddylai fy ymateb amgaeëdig ddylanwadu o gwbl ar y modd y caiff fy natganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol ei ddehongli.

Cysylltwch ar bob cyfrif os gallaf fod o gymorth pellach i'r Pwyllgor yn ei drafodaethau

Yn gywir,

Elin Jones

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones MS/AS

Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

## Ymateb i gwestiynau yn y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio: 22 Mawrth 2024

**Cwestiwn 1:** Rydym yn nodi nad yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil hwn yn nodi unrhyw gostau nac arbedion i Gomisiwn y Senedd. Pa ran y mae Comisiwn y Senedd wedi'i chwarae o ran datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol? A allwch chi gadarnhau na ragwelir unrhyw gostau neu arbedion mesuradwy neu anfesuradwy i'r Comisiwn yn gysylltiedig â'r Bil hwn?

**Ymateb:** Gallaf gadarnhau nad yw Comisiwn y Senedd wedi chwarae unrhyw ran yn y gwaith o ddatblygu Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil SC(RhYE). Darparodd y Comisiwn gostau o ran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Rwyf ar ddeall – o ystyried cwmpas Bil SC(RhYE) a'r wybodaeth a ddarparwyd – nad oedd Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Senedd roi unrhyw wybodaeth ychwanegol i lywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil SC(RhYE).

**Cwestiwn 2:** Pa baratoadau y mae Comisiwn y Senedd yn eu gwneud i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Bil? Beth yw'r amcangyfrif o gost y gweithgaredd hwn?

**Ymateb:** Mae cynllun cyfathrebu lefel uchel wedi'i ddatblygu, wrth ragweld pasio'r ddeddfwriaeth ddiwygio.

Bydd ymgyrch gyfathrebu Comisiwn y Senedd ar gyfer Diwygio'r Senedd yn mynd ati i gyflawni'r canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau i'r Senedd;
- cynyddu dealltwriaeth o rôl y Senedd a'i Aelodau; ac
- annog cyfranogiad yn etholiad y Senedd.

Bydd hyn – i raddau helaeth – yn ategu amcanion Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu Comisiwn y Senedd ar gyfer y Chweched Senedd, sydd yn ei thrydedd flwyddyn ac sy'n anelu at gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen. Bydd hon yn parhau i fod yn gynulleidfa sy'n flaenoriaeth i Gomisiwn y Senedd ond oherwydd maint y newidiadau, bydd y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu hefyd yn ymgorffori technegau i gyrraedd y rheini sy'n fwy tebygol o fod wedi ymgysylltu â'r Senedd, a sefydlu ei hun fel ffynhonnell wybodaeth y gellir ymddiried ynddi.

Wrth ystyried hyd a lled y newidiadau a'u pwysigrwydd, mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i archwilio cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid – megis Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Etholiadol – i alinio cynlluniau cyfathrebu Comisiwn y Senedd, a sicrhau bod pob sefydliad yn cydweithio lle bynnag y bo modd. At hynny, mae'n sicrhau nad yw ymdrechion yn cael eu dyblygu, bod negeseuon dryslyd yn cael eu hosgoi, bod y defnydd gorau o arian cyhoeddus yn cael ei ddarparu.

Mae Cynllun Ymgyrch Diwygio’r Senedd, Comisiwn y Senedd, wedi’i rannu’n gamau sy’n ymestyn o basio’r Bil i gyflwyno Senedd newydd, ddiwygiedig yn 2026.

## Cam Un – Rhannu Gwybodaeth (Haf 2024 – Gwanwyn 2025)

Bydd y cam hwn o’r ymgyrch yn canolbwyntio ymdrechion ar sicrhau bod pobl sy’n ymgysylltu â’r Senedd yn gallu cael mynediad hawdd at wybodaeth glir a dealladwy am y newidiadau, a sut y bydd y newidiadau hynny’n effeithio arnynt.

Mae hyn yn cynnwys diweddariadau i wefan y Senedd, gwybodaeth wedi'i diweddaru ar y safle ar gyfer ymwelwyr â'r Senedd, sesiynau addysg wedi'u diweddaru a gwybodaeth yn sioeau haf Comisiwn y Senedd.

At hynny, bydd y cam hwn o’r ymgyrch hefyd cael ei ddefnyddio i nodi 25 mlynedd ers sefydlu’r Senedd, er mwyn tynnu sylw at gam nesaf ei thaith, gan gynnwys archwilio cyfleoedd gyda’r cyfryngau, a digwyddiadau yn y Senedd a gynhelir gan y Llywydd.

## Cam Dau – Annog Cyfranogiad (Gwanwyn 2025 – Mai 2026)

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd ymdrechion yn cael eu cynyddu er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt, fel arfer, yn ymgysylltu â’r Senedd, yn ogystal â chynnal cysylltiadau â’r rheini sydd wedi gwneud o’r blaen.

Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio’r rhan fwyaf o weithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb Comisiwn y Senedd ar Ddiwygio’r Senedd – gan gynnwys sioeau haf, allgymorth cymunedol, digwyddiadau a sesiynau addysg. Bydd hynny’n cael ei wneud gan ddefnyddio mewnwelediad cynulleidfa i lywio’r gweithgareddau’n unol ag anghenion y cynulleidfaoedd targed hynny.

Daw uchafbwynt y cyfnod hwn tuag at ei ddiwedd, pan fydd Comisiwn y Senedd yn lansio ei ymgyrch gwybodaeth etholiad. Mae syniadau cynnar ar gyfer yr ymgyrch hon yn cynnwys gweithio gyda chrewyr cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol, ymgyrch hysbysebu digidol, allgymorth cymunedol – gyda ffocws ar gymunedau sydd wedi bod yn llai tebygol o ymgysylltu â’r Senedd yn flaenorol – a cham ymlaen o sesiynau addysg sy’n canolbwyntio ar y rheini sydd dros 16 oed.

Bydd Comisiwn y Senedd yn ymchwilio ymhellach i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol – fel y Comisiwn Etholiadol – yn ystod y cam hwn, i sicrhau nad yw ymdrechion yn cael eu dyblygu, ac er mwyn cynyddu cyrhaeddiad. Gallai hyn gynnwys cydweithio ar adnoddau addysg a digwyddiadau, a rhannu gwybodaeth am ymgyrchoedd marchnata.

## Cam Tri – Cyflwyno Senedd Ddiwygiedig (Mai 2026 – Hydref 2026)

Bydd y cam hwn yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o’r Senedd, a’r hyn y gall ei wneud i gefnogi pobl a’u cymunedau.

Gyda’r newid mwyaf yn debygol o fod o amgylch Aelodau a’u hetholaethau, bydd y cam hwn yn canolbwyntio’n enwedig ar gefnogi pobl i ddod o hyd i’w Haelodau, a’r hyn y gall eu Haelodau ei wneud i’w cefnogi. Bydd hon yn ymdrech â ffocws ar draws pob sianel, gan gynnwys hysbysebu digidol, cyfryngau lleol, ymgysylltu â'r gymuned, ac ymweliadau a theithiau.

Costau

Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil SC(RhYE) yn cynnwys costau codi ymwybyddiaeth y cyhoedd mewn perthynas â deddfwriaeth diwygio’r Senedd. Nid oes unrhyw gostau pellach wedi'u nodi ar gyfer y Bil SC(RhYE).

Cwestiwn 3: Yng ngoleuni’r cynnydd tebygol yn nifer yr Aelodau o’r Senedd sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant a babanod, a roddwyd unrhyw ystyriaeth i wneud addasiadau i ystâd y Senedd, megis darparu cyfleuster crèche ar y safle, neu gynyddu’r ddarpariaeth parcio hygyrch, ystafelloedd teulu, a chyfleusterau ar gyfer bwydo ar y fron a thynnu llaeth?

Ymateb: Mewn ymateb i gynigion Diwygio’r Senedd, mae Prosiect Tŷ Hywel 26 wedi’i sefydlu o fewn rhaglen Ffyrdd o Weithio Comisiwn y Senedd. Cwmpas y prosiect hwn – sy’n nodi’r amserlenni heriol ar gyfer cyflawni erbyn dechrau 2026 – yw darparu lle swyddfa ychwanegol ar gyfer y cynnydd posibl yn nifer yr Aelodau a’u staff cymorth, gan hefyd ddarparu lle i staff Comisiwn y Senedd, a digon o le ar gyfer nifer gynyddol o Weinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru. Ceisir ymgynghori ag Aelodau ar eu hanghenion mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys sesiynau galw heibio yn y Cwrt, grwpiau cyfeirio Aelodau a gweithdai ar gyfer prosiectau Tŷ Hywel a'r Siambr. Fe fydd y prosiect Tŷ Hywel yn ystyried addasiadau priodol pe bai yna ddymuniad gan Aelodau i’r perwyl hynny.

O fewn y rhaglen Ffyrdd o Weithio, mae Comisiwn y Senedd hefyd wedi sefydlu prosiect Bae Caerdydd 2032. Bydd y gwaith hwn yn nodi ac yn cyflawni anghenion hirdymor y Senedd o ran ystâd a llety, gan gynnwys ystyried ystod eang o gyfleusterau sydd eu hangen i gefnogi’r Senedd a’i Haelodau, o fewn y paramedrau cyllido y cytunwyd arnynt gan y Senedd. Ar yr adeg briodol yn natblygiad y prosiect, bydd Comisiwn y Senedd yn ymgysylltu’n fanwl â grwpiau’r pleidiau i sicrhau bod anghenion yr Aelodau’n cael eu hadlewyrchu’n llawn yn y cynlluniau ar gyfer unrhyw opsiwn llety arfaethedig yn y dyfodol.

Cwestiwn 4: A roddwyd unrhyw ystyriaeth i ffyrdd o weithio’r Senedd yn y dyfodol i fynd i’r afael â rhwystrau a allai fel arall atal menywod a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol rhag sefyll mewn etholiad, megis amserlennu busnes y Senedd, arferion gweithio hyblyg a datblygiadau technolegol arloesol?

Ymateb: Mewn perthynas ag unrhyw rwystrau a allai gael eu cyflwyno gan weithdrefnau’r Senedd, bu’r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur ar barodrwydd gweithdrefnol ar gyfer diwygio’r Senedd ym mis Tachwedd 2023 a chytunodd, mewn egwyddor, i ddechrau ystyried meysydd diwygio gweithdrefnol yn hydref 2024.

Mae’r ddeddfwriaeth ddiwygio – ar ei ffurf bresennol – yn cynnwys nifer o ddarpariaethau a fydd, os caiff ei phasio, yn golygu bod angen gwneud newidiadau i weithdrefnau’r Senedd, gan gynnwys diwygiadau i’r Rheolau Sefydlog a chanllawiau cysylltiedig.

Er bod paramedrau’r adolygiad hwn yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, bydd angen i’r Pwyllgor Busnes gymryd y camu a ganlyn, o leiaf:

- Adolygu'r Rheolau Sefydlog a'r canllawiau cysylltiedig yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth Diwygio'r Senedd, unwaith y caiff ei phasio; a hefyd
- cynnig newidiadau i Reolau Sefydlog y Senedd i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau gweithdrefnol i weithrediad y Seithfed Senedd.

Fel rhan o'r gwaith y mae'n ei wneud i gwmpasu'r adolygiad hwn, bydd y Pwyllgor Busnes yn ystyried, ymhlith pethau eraill, a ddylid cynnwys materion fel trefnu busnes yn wahanol a/neu ystyried effaith unrhyw newidiadau gweithdrefnol presennol, neu newidiadau gweithdrefnol posibl, ar allu'r Senedd i ddenu ystod mor eang ac amrywiol o Aelodau â phosibl.

At hynny, ym mis Mai 2022, gwnaeth y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd argymhelliad i'r Pwyllgor Busnes y dylai ystyried y materion ymarferol a gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â dau Aelod yn rhannu swydd benodol (megis rôl Cadeirydd Pwyllgor), gan nodi effaith gadarnhaol bosibl hynny ar amrywiaeth yr ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad fel rheswm dros archwilio'r maes hwn ymhellach. Mae'r mater wedi'i ychwanegu at flaenraglen waith weithdrefnol y Pwyllgor Busnes, a disgwylir iddo gael ei ystyried yn 2024.

Ers hynny, mae darpariaeth yn ymwneud ag adolygiad o drefniadau rhannu swyddi posibl (a dal swyddi dros dro) sy'n ymwneud â'r Senedd wedi'i chynnig yn y Bil SC(RhYE). Ym mis Ionawr 2024, argymhellodd y Pwyllgor Biliau Diwygio y dylid diwygio Bil SC(RhYE) i gael gwared ar y mecanwaith ar gyfer adolygu trefniadau rhannu swyddi posibl sy'n ymwneud â'r Senedd. At hynny, argymhellodd y dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried cynnig sefydlu pwyllgor newydd yn y Senedd hon i archwilio materion sy'n ymwneud â rhannu swydd a dal swydd dros dro, neu ofyn i un o bwyllgorau presennol y Senedd sydd â chylch gorchwyl perthnasol i gynnal y gwaith. Derbyniodd y Pwyllgor Busnes yr argymhelliad hwn, gan nodi y byddai'n ystyried y cais a wnaed pan fyddai sicrwydd ynghylch y newidiadau deddfwriaethol (rhagwelir mai yn ystod tymor yr haf 2024 y bydd hyn).

Yn y cyfamser, gan fod cadeiryddion pwyllgorau yn rolau anstatudol ac felly nad oes angen newidiadau deddfwriaethol i'w galluogi i rannu swyddi, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cynnal ystyriaeth gychwynnol o gynigion ar gyfer rhannu swydd cadeiryddion pwyllgorau. Roedd y gwaith cynnar hwn yn cynnwys ystyried gwybodaeth a gyflwynwyd i bwyllgorau'r Senedd, ac mewn mannau eraill yn ymwneud ag effaith rhannu swyddi ar hygyrchedd a hyblygrwydd rolau, ac amrywiaeth y rheini sy'n eu cyflogi. Bydd y Pwyllgor Busnes yn dychwelyd at y gwaith hwn i raddau manylach, yn ystod tymor yr haf 2024.

Dylid nodi bod trefniadaeth busnes y Senedd a'r amserlen fel arfer yn faterion i'r Pwyllgor Busnes a'r Senedd benderfynu arnynt ar ddechrau ei thymor. Ym mis Gorffennaf 2022, cytunodd y Senedd ar nifer o newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a oedd wedi'u cynnig gan y Pwyllgor Busnes yn dilyn adolygiad o Reol Sefydlog 34 dros dro, a chyfranogiad Aelodau o bell yn nhrafodion y Senedd, y naill a'r llall wedi'u cyflwyno mewn ymateb i bandemig Covid-19. Ar ôl ymgynghori ag Aelodau, grwpiau'r pleidiau ac eraill, cynigiodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y gallu i Aelodau gymryd rhan o bell yn y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor. Ar ôl i'r Senedd gytuno ar newidiadau i'r Rheolau Sefydlog, cyhoeddwyd canllawiau ar drafodion rhithwir a hybrid o dan Reol Sefydlog 6.17. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi nodi y bydd hyn yn cael ei adolygu'n barhaus yng ngoleuni profiad yn ystod y Chweched Senedd.

O ran arloesiadau technolegol, mae Comisiwn y Senedd yn defnyddio amrywiaeth o dechnolegau sy'n helpu i gael gwared ar y rhwystrau i gyfranogiad ym musnes y Senedd, a allai fel arall atal unigolion neu grwpiau rhag sefyll etholiad.

Mae mesurau seiberddiogelwch cadarn wedi galluogi Comisiwn y Senedd i ddarparu offer TGCh sy'n galluogi cyfathrebu a chydweithio diogel a di-dor o unrhyw leoliad â chysylltiad i'r rhyngrwyd. Mae fideo-gynadledda, negeseuon gwib, a llwyfannau cydweithio rhithwir megis Microsoft Teams a Zoom yn hwyluso rhyngweithiadau amser real, gan ganiatáu i Aelodau weithio o wahanol leoliadau. Mae hyn yn ymestyn i drafodion seneddol ffurfiol fel Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor, gan ganiatáu i Aelodau gymryd rhan yn llawn o bell, gan gynnwys pleidleisio.

Mewn ymateb i gynigion Diwygio'r Senedd, mae Prosiect Siambr 2026 wedi'i sefydlu o fewn y Rhaglen Ffyrdd o Weithio. Bydd y prosiect hwn yn darparu siambr estynedig, a fydd yn gallu cynnwys 96 o Aelodau. Yn ganolog i'r prosiect hwn mae gwelliannau i'r technolegau sy'n sail i'r Cyfarfodydd Llawn, a'r angen i sicrhau bod unrhyw newid yn ystyried anghenion pawb a allai fod yn dymuno sefyll etholiad i'r Senedd. Bydd asesiadau effaith cydraddoldeb llawn yn cael eu cwblhau ar gyfer y ddau brosiect wrth iddynt wneud cynnydd.

Fel llawer o sefydliadau, mae Comisiwn y Senedd yn ceisio harneisio manteision AI cynhyrchiol. Rhagwelir y bydd Aelodau'r Senedd yn gallu harneisio'r gwelliannau awtomeiddio ac effeithlonrwydd y gall y technolegau hyn eu cyflawni, gan ddileu llawer o dasgau beichus, arferol a rhyddhau amser Aelodau.

Bydd yr holl dechnolegau hyn yn buddio o welliannau yn y dyfodol, a byddant yn parhau i addasu i ganiatáu i Aelodau ymgymryd â'u rôl mewn ffordd sy'n gweddu i'w hanghenion penodol, ac i anghenion eu hetholwyr.

**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
—
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Y Llywydd

22 Mawrth 2024

Annwyl Lywydd

Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): tystiolaeth ysgrifenedig

Fel y gwyddoch, cyfeiriwyd Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ('y Bil') at y Pwyllgor Biliau Diwygio ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 ar ei egwyddorion cyffredinol. Rydym yn ysgrifennu i ofyn am dystiolaeth ysgrifenedig gennych yn rhinwedd eich rôl fel Cadeirydd Comisiwn y Senedd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes. Yn benodol, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r cwestiynau isod.

Wrth ofyn y cwestiynau hyn, rydym yn cydnabod bod cyd-ddibyniaeth rhwng cynllun a chost y Bil hwn a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) fel pecyn o ddiwygiadau. Fodd bynnag, ein rôl ni yw craffu ar bob Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn ôl eu rhinweddau, yn enwedig gan nad yw'r darpariaethau cychwyn yn y Bil yn nodi ym mha etholiad cyffredinol y Senedd y bydd darpariaethau'r Bil yn dod i rym.

1. Rydym yn nodi nad yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil hwn yn nodi unrhyw gostau nac arbedion i Gomisiwn y Senedd. Pa ran y mae Comisiwn y Senedd wedi'i chwarae o ran datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol? A allwch chi gadarnhau na ragwelir unrhyw gostau neu arbedion mesuradwy neu anfesuradwy i'r Comisiwn yn gysylltiedig â'r Bil hwn?

2. Pa baratoadau y mae Comisiwn y Senedd yn eu gwneud i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Bil? Beth yw'r amcangyfrif o gost y gweithgaredd hwn?

3. Yng ngoleuni'r cynnydd tebygol yn nifer yr Aelodau o'r Senedd sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant a babanod, a roddwyd unrhyw ystyriaeth i wneud addasiadau i ystâd y



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Senedd, megis darparu cyfleuster crèche ar y safle, neu gynyddu’r ddarpariaeth parcio hygyrch, ystafelloedd teulu, a chyfleusterau ar gyfer bwydo ar y fron a thynnu llaeth?

4. A roddwyd unrhyw ystyriaeth i ffyrdd o weithio’r Senedd yn y dyfodol i fynd i’r afael â rhwystrau a allai fel arall atal menywod a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol rhag sefyll mewn etholiad, megis amserlennu busnes y Senedd, arferion gweithio hyblyg a datblygiadau technolegol arloesol?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb erbyn 12 Ebrill 2024. Mae copi o’r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Pwyllgor Cyllid a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, ac at y Prif Weinidog.

Yn gywir

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Mawrth 2024

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Mawrth 2024.

Fel y dywedwch yn eich llythyr, mae’r amserlen hon yn cynnwys cyfnod o naw wythnos eistedd ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1, sy’n wahanol i’r deuddeg wythnos eistedd arferol. Atodir llythyr dyddiedig 7 Mawrth 2024 oddi wrth y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Busnes am ragor o wybodaeth am y rhesymau dros gynnig amserlen gyflym.

Yn ei gyfarfod ar 12 Mawrth 2024, trafododd y Pwyllgor Busnes y llythyrau, a thrwy fwyafrif, cytunodd ar amserlen arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer ystyriaeth y Senedd o Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol). Nid oedd dau o’r Aelodau, a minnau yn eu plith, yn cytuno â’r amserlen gyflym.

Ysgrifennaf i gofnodi fy amheuon, fel Llywydd, ynghylch yr amserlen graffu gyflym ar gyfer y Bil hwn. Rwyf wedi dweud nad yw darpariaethau’r Bil hwn, yn fy marn i, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd; mae’r Aelod sy’n gyfrifol am y Bil wedi dweud bod y darpariaethau, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd. Dyma’r tro cyntaf i Fil gael ei gyflwyno lle y mae gwahaniaeth barn ynghylch ei gymhwysedd.

Mae craffu ar egwyddorion cyffredinol Bil yng Nghyfnod 1 yn galluogi pwyllgorau i godi cwestiynau am amryw o faterion, gan gynnwys cymhwysedd deddfwriaethol. Mae’n resyn y bydd llai o amser nag arfer ar gael i’ch Pwyllgor ystyried y mater newydd a chymhleth hwn.

Wrth gytuno ar yr amserlen, nododd y Pwyllgor Busnes, os bydd y Pwyllgor sy’n gyfrifol, yn ystod ei waith craffu, o’r farn ei bod yn angenrheidiol iddo gael mwy o amser i ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, yna caiff ofyn am amser ychwanegol.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid, oherwydd y bydd eu pwyllgorau hwythau hefyd yn craffu ar y Bil yng Nghyfnod 1.

Yn gywir,



Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones MS/AS

Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

seneddbusnes@senedd.cymru

7 Mawrth 2024

Annwyl Elin,

Ymhellach i'r drafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 5 Mawrth, rwy'n ysgrifennu i rannu rhagor o wybodaeth am yr amserlen arfaethedig ar gyfer craffu ar y Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol).

Mae cyflwyno'r Bil yn cyflawni argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth yn y maes hwn ac y dylai diwygio'r Senedd gael ei weithredu mewn da bryd ar gyfer yr etholiad yn 2026. Cafodd argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig eu cymeradwyo gan fwyafrif o Aelodau'r Senedd.

Mae'r amserlen a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn sylfaenol ar gyfer cynnal llwybr tuag at weithredu'r mesurau mewn da bryd ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026. Rydym yn gweithio i sicrhau bod y mesurau ar waith cyn yr etholiad hwnnw gan fod hyn yn rhan o becyn diwygio'r Senedd ynghyd â'r Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Byddai goblygiadau ar gyfer y gwaith gweithredu hwnnw pe bai oedi o fis yn unig hyd yn oed yn hynt y Bil.

Bydd angen amser ar weinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol i baratoi ar gyfer gweithredu'r newidiadau, ar ôl i'r ddeddfwriaeth berthnasol gael ei gwneud. Mae Confensiwn Gould yn darparu y dylai pob darn o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i etholiad, gan gynnwys is-ddeddfwriaeth, gael ei wneud o leiaf chwe mis cyn cyhoeddi hysbysiad yr etholiad hwnnw, er mwyn sicrhau bod digon o amser ar gyfer rhoi'r newidiadau i gyfraith etholiadol ar waith yn briodol. Wrth fynd ati i gyflawni'r mesurau diwygio etholiadol a gynigir ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i lynu at Gonfensiwn Gould.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddai’n rhaid i ddarpariaethau’r Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) gael eu gweithredu drwy is-ddeddfwriaeth. Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, y cyfeirir ato'n fwy cyffredin fel "y Gorchymyn Cynnal Etholiadau", yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau i'r Senedd.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd ar gyfer y ddau Fil, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cydgrynhoi ac ailddatgan y gyfraith fel rhan o Orchymyn Cynnal Etholiadau newydd. Hwn fydd y tro cyntaf i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau gael ei ddiwygio'n llawn ers 2007. Ymhellach, bydd y Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg am y tro cyntaf. Mae hwn yn ymgymeriad mawr ac mae’n galw am gryn dipyn o waith. At hynny, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Gorchymyn Cynnal Etholiadau.

Mae'r amserlen arfaethedig yn cynnig y cyfle gorau i wneud y ddeddfwriaeth sylfaenol a’r is-ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer caniatáu i ddarpariaethau'r Bil gael eu gweithredu’n llwyddiannus mewn da bryd ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026, yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig.

Yn ei lythyr, tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio sylw at y ffaith bod disgwyl i’r Prif Weinidog newydd gael ei enwebu a’i benodi yn fuan wedi i'r Bil gael ei gyflwyno. Gallai hyn arwain at ansicrwydd ynghylch yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil. Er gwaethaf hynny, rwy’n nodi y bydd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Biliau Diwygio ddydd Mercher, 13 Mawrth, fel rhan o waith craffu Cyfnod 1 y pwyllgor hwnnw. Bydd hyn yn galluogi'r Pwyllgor i fynd ati ar unwaith i ddechrau ar ei waith craffu ar y Bil.

Byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Pwyllgor Busnes yn cytuno ar yr amserlen arfaethedig.

Yn gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

David Rees AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansodd

11 Mawrth 2024

Annwyl David a Huw,

**Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Datganiad a gymhwysedd deddfwriaethol**

Yn unol ag adran 110(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) a Rheol Sefydlog 26.4, rwyf wedi gosod datganiad yn nodi fy marn ynghylch a fyddai darpariaethau Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ai peidio.

Yn fy marn i, ni fyddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Nodir fy rhesymau dros y farn honno yn fy natganiad.

Fel y gŵyr yr Aelodau, er ei bod yn ofynnol i mi wneud datganiad sy'n nodi fy marn, nid yw cynnwys fy natganiad yn effeithio ar a ganiateir cyflwyno Bil neu a gaiff Bil gwblhau ei hynt drwy'r Senedd ai peidio.

Er mwyn helpu i lywio eich gwaith craffu ar y Bil yng Nghyfnod 1, amgaeaf grynodeb o'r materion a ystyriwyd gennyf wrth lunio fy marn. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth a chyngor, bydd y swyddogion sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor yn fwy na pharod i helpu.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Prif Weinidog, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn rhinwedd ei swydd fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, a phob Aelod o'r Senedd.

Yn gywir,

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones MS/AS

Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): crynodeb o'r ystyriaethau o ran cymhwysedd deddfwriaethol**

Wrth lunio'r farn na fyddai Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)[1] o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, rwyf wedi ystyried y profion cymhwysedd deddfwriaethol a nodir yn adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Nid oedd rhinweddau'r polisi sy'n sail i'r Bil yn rhan o'm proses benderfynu.

Mae fy marn yn seiliedig ar y profion cyfreithiol a'r cyngor cyfreithiol a gefais ar y profion hynny. Yn y pen draw, wrth gwrs, dim ond y Goruchaf Lys all ateb yn derfynol y cwestiwn ynghylch a yw unrhyw Fil gan y Senedd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Cyfle cyfartal, sy'n fater a gedwir yn ôl**

O ran fy marn bod y Bil yn ymwneud â chyfle cyfartal, sy'n fater a gedwir yn ôl, rwyf wedi cymhwyso'r prawf 'ymwneud â' ("relates to") fel y'i nodir yn adran 108A(2)(c) o Ddeddf 2006 ac fel y'i cymhwyswyd gan y Goruchaf Lys mewn nifer o achosion datganoli.

Ystyriais ddiben ac effaith y Bil. Er fy mod yn derbyn bod gan y Bil ddiben datganoledig, sef gwneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol, yn fy marn i mae gan y Bil ddiben a gedwir yn ôl hefyd, sef cyfle cyfartal.

Mae cyfle cyfartal yn fater a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf 2006 ac mae'n cynnwys atal, dileu neu reoleiddio gwahaniaethu rhwng personau ar sail rhyw.

O ddarllen y Bil a'r Memorandwm Esboniadol, deuthum i'r casgliad:

(a) bod y Bil yn ceisio mynd i'r afael ag anfanteision a rhwystrau y mae menywod yn eu hwynebu yn ystod y broses dethol ymgeiswyr;

(b) y bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bleidiau gwleidyddol drin dyn (a fyddai fel arall yn fwy tebygol o gael ei ddewis ar gyfer safle ar y rhestr y mae'n rhaid ei ddyrannu i fenyw) yn llai ffafriol na menyw, oherwydd rhyw y dyn.

Ar ôl ystyried diben ac effaith y Bil, deuthum i'r casgliad bod gan y Bil fwy na chysylltiad 'llac neu ganlyniadol'[2] ag atal, dileu neu reoleiddio gwahaniaethu rhwng personau ar sail rhyw. Mewn geiriau eraill,

[1] Adran 1 yw craidd y Bil. Felly, canolbwyntiais ar adran 1 wrth ddadansoddi cymhwysedd y Bil. Fodd bynnag, oherwydd bod pob adran arall o'r Bil yn dibynnu'n uniongyrchol ar adran 1, wedi i mi lunio'r farn nad oedd adran 1 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol, roedd yn dilyn yn anochel nad oedd y Bil cyfan o fewn cymhwysedd deddfwriaethol.

[2] Y prawf 'llac neu ganlyniadol' ("loose or consequential") fel y'i cymhwyswyd gan y Goruchaf Lys mewn nifer o achosion datganoli, gan gynnwys: Martin v Most [2010] UKSC 10; Imperial Tobacco Limited (Apelydd) v yr Arglwydd Adfocad (Atebydd) (yr Alban) [2012] UKSC 61; BIL SECTOR AMAETHYDDOL (CYMRU) - Cyfeiriad gan Dwrnai Cyffredinol Cymru a Lloegr [2014] UKSC 43. (*Saesneg yn unig*)

yn fy marn i, mae'r Bil yn ymwneud â chyfle cyfartal, sy'n fater a gedwir yn ôl, ac ni fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Rwyf wedi ystyried yr eithriadau i'r mater a gedwir yn ôl o ran cyfle cyfartal yn Atodlen 7A i Ddeddf 2006, ac rwyf wedi dod i'r casgliad nad oes yr un ohonynt yn berthnasol yn yr achos hwn.

**Addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl, sef Deddf Cydraddoldeb 2010**

O ran fy marn bod y Bil yn addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl, rwyf wedi ystyried y prawf a nodir yn adran 108A(2)(d) o Ddeddf 2006 a chyfraith achosion berthnasol y Goruchaf Lys.

Mae Atodlen 7B i Ddeddf 2006 yn gosod nifer o gyfyngiadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae hyn yn cynnwys paragraff 1 o Atodlen 7B, sy'n gosod cyfyngiad ar addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl.

Yn fy marn i, mae'r Bil yn addasu adran 104 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n ffurfio rhan o'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl.

Mae adran 104 o Ddeddf 2010 yn gwneud darpariaeth arbennig i bleidiau gwleidyddol drwy ganiatáu iddynt (yn wirfoddol) fabwysiadu trefniadau dethol gwahaniaethol er mwyn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn eu prosesau dethol ymgeiswyr. Felly, mae adran 104 yn **caniatáu** i bleidiau gwleidyddol fynd i'r afael â thangynrychiolaeth, ond nid yw'n **ofynnol** iddynt wneud hynny.

Mae'r Bil, fodd bynnag, yn ei gwneud yn ofynnol i bleidiau gwleidyddol fynd i'r afael â thangynrychiolaeth: mae'n ei gwneud yn ofynnol i o leiaf hanner yr ymgeiswyr ar restrau a gyflwynir gan bleidiau gwleidyddol fod yn fenywod, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd cyntaf neu'r unig ymgeisydd ar o leiaf hanner y rhestrau hynny fod yn fenyw. Yng nghyd-destun etholiadau'r Senedd, yn fy marn i, mae'r Bil i bob pwrpas yn troi'r pŵer gwirfoddol i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn adran 104 yn ddyletswydd i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth.

Rwyf wedi dod i'r casgliad bod newid o'r fath yn gyfystyr ag addasiad i adran 104. Er nad yw'r Bil yn diwygio testun adran 104, mae'r Bil yn gwrthdaro ag adran 104, sy'n addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl.

Wrth ddod i'r casgliad hwn, rwyf wedi ystyried esboniad y Goruchaf Lys o ystyr 'addasu' ("modify").[3] Rwyf hefyd wedi ystyried yr eithriad o ran darpariaeth ategol ("ancillary") ym mharagraff 2 o Atodlen 7B, ond nid wyf o'r farn ei fod yn berthnasol yn yr achos hwn.

Yn fy marn i, mae'r Bil yn addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl ac ni fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Os caiff ei basio gan y Senedd, yna, fel gyda phob Bil, bydd y Bil yn dod yn destun cyfnod hysbysu o bedair wythnos. Yn ystod y cyfnod hwn, gall y Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol gyfeirio'r

[3] BIL YMADAWIAD Y DU Â'R UNDEB EWROPEAIDD (PARHAD CYFREITHIOL) (YR ALBAN) - Cyfeiriad gan y Twrnai Cyffredinol ac Adfocad Cyffredinol yr Alban (yr Alban) [2018] UKSC 64, paragraff 51. (*Saesneg yn unig*)

cwestiwn a yw’r Bil, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo, yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i’r Goruchaf Lys am benderfyniad, yn unol ag adran 112 o Ddeddf 2006. Yn yr un modd, gall Ysgrifennydd Gwladol Cymru ymyrryd drwy wneud gorchymyn yn gwahardd Clerc y Senedd rhag cyflwyno’r Bil er mwyn iddo gael y Cydsyniad Brenhinol os oes ganddo sail resymol dros gredu bod amodau penodol yn gymwys (a nodir yn adran 114 o Ddeddf 2006).

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 29 Ebrill 2024

## SL(6)482 – Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol a Chymwysterau Athrawon Addysg Bellach) (Cymru) 2024

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Gorchymyn hwn yn:

- Ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr dysgu oedolion yn y gymuned a phenaethiaid ac uwch-arweinwyr mewn sefydliadau addysg bellach gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA).
- Gosod y ffi ar gyfer y ddau gategori cofrestru newydd hynny (£46 y flwyddyn).
- Ei gwneud yn ofynnol i bob athro neu athrawes sy'n gweithio yn y categori athrawon addysg bellach ddal cymhwyster penodedig (ac yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor y Gweithlu Addysg adolygu'r rhestr o gymwysterau).
- Ychwanegu ymarferwyr dysgu oedolion ac athrawon addysg bellach at y rhestr o broffesiynau a reoleiddir yng Nghymru.[1]

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Addysg (Cymru) 2014

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 10 Mai 2024

[1] O dan Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023

Eitem 6.1

# SL(6)479 – Rheoliadau Archwilwyr Meddygol (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad ag archwilwyr meddygol a benodir gan gorff GIG Cymru i gyflawni'r swyddogaethau a roddir i archwilwyr meddygol gan neu o dan Bennod 2 o Ran 1 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 ("y Ddeddf"). Mae'r swyddogaethau hynny yn cynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud ag ardystio'n feddygol achos marwolaethau y mae'n ofynnol eu cofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953.

Mae rheoliad 3 yn nodi darpariaethau ynghylch telerau mandadol sydd i'w cynnwys yn nhelerau penodi archwilwyr meddygol ac ynghylch terfynu penodiad, ac yn caniatáu cynnwys unrhyw delerau eraill y cytunir arnynt rhwng y corff penodi a'r archwilydd meddygol (fel y'u diffinnir yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn).

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth sy'n caniatáu i gorff penodi dalu tâl, treuliau, ffioedd, digollediad am derfynu penodiad, pensiynau, lwfansau neu arian rhodd i archwilwyr meddygol.

Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r hyfforddiant sydd i'w ddilyn gan archwilwyr meddygol.

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr meddygol ddilyn camau penodol pan na fo'r archwilydd meddygol, mewn perthynas â marwolaeth y mae'n ofynnol ei chofrestru, yn ddigon annibynnol o fewn ystyr y rheoliad hwnnw, oherwydd cysylltiad a oedd gan yr archwilydd meddygol â'r person ymadawedig, yr ymarferydd perthnasol a fu'n gweini neu unrhyw ymarferydd meddygol perthnasol arall ar adeg y farwolaeth. Mae'r camau hyn yn cynnwys gwrthod arfer swyddogaethau mewn perthynas â marwolaeth, a hysbysu eu corff penodi.

Mae rheoliad 7 yn rhoi swyddogaethau i archwilwyr meddygol sy'n ychwanegol at eu swyddogaethau sy'n ymwneud â'r dystysgrif feddygol achos marwolaeth o dan reoliadau a wneir o dan adran 20(1) o'r Ddeddf.

Mae rheoliad 8 yn darparu nad yw cyflenwi unrhyw wybodaeth o dan y Rheoliadau hyn yn torri unrhyw rwymedigaeth o ran cyfrinachedd. Mae hefyd yn darparu nad yw'r Rheoliadau hyn yn gweithredu i'w gwneud yn ofynnol nac i awdurdodi datgelu na defnyddio gwybodaeth a fyddai'n torri'r ddeddfwriaeth diogelu data.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd;**

Nodwn fod y Rheoliadau hyn yn rhan o ddiwygio'r broses ardystio marwolaethau yn ehangach Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"4.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o ddiwygio'r broses ardystio marwolaethau yn ehangach. Mae'r diwygiadau yn newid y ffordd y craffir ar farwolaethau, ac y'u hardystir yng Nghymru a Lloegr drwy gyflwyno system archwilwyr meddygol statudol. Cyhoeddwyd hyn gan Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Llywodraeth y DU, Maria Caulfield, mewn datganiad gweinidogol ysgrifenedig ar 27 Ebrill 2023 HCWS750.*
>
> *4.2 Mae proses graffu'r archwilwyr meddygol ar farwolaethau yng Nghymru a Lloegr wedi bod yn gweithredu ar sail anstatudol ers 2019. Mae'r offeryn hwn yn rhoi rôl archwilwyr meddygol ar sail statudol ac mae'n golygu y bydd adolygiad annibynnol o'r holl farwolaethau yng Nghymru a Lloegr.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**24 Ebrill 2024**

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Archwilwyr Meddygol (Cymru) 2024** |
| **DYDDIAD** | **15 Ebrill 2024** |
| **GAN** | **Eluned Morgan AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol** |

Heddiw, caiff rheoliadau eu gosod yng Nghymru a Lloegr, a fydd yn sefydlu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer system statudol, unedig i archwilwyr meddygol annibynnol graffu ar yr holl farwolaethau yn y ddwy wlad, nad yw crwner yn ymchwilio iddynt. Daw'r rheoliadau hyn i rym ar 9 Medi 2024.

Bydd rôl statudol newydd archwilwyr meddygol – a'r gweithdrefnau newydd – yn cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd ac ar wasanaethau iechyd yng Nghymru.

Dyma rai o'r buddion disgwyliedig:

- Bydd archwilydd meddygol yn craffu ar achos y farwolaeth a gofnodir ar dystysgrifau meddygol achos marwolaeth. Bydd hyn yn helpu i nodi patrymau a thueddiadau ac, yn ei dro, yn helpu i ganfod unrhyw arferion gwael neu hyd yn oed weithgarwch troseddol.
- Bydd tystysgrifau meddygol achos marwolaeth yn darparu gwybodaeth fwy cywir am achosion marwolaethau, gan arwain at gynllunio gwasanaethau iechyd yn well.
- Bydd gwybodaeth well ar gyfer llywodraethu clinigol a monitro iechyd yn cefnogi dysgu a gwella, a fydd yn helpu i wneud gwasanaethau iechyd yn fwy diogel.
- Bydd y broses ardystio marwolaethau yn haws i deuluoedd mewn profedigaeth ddeall a bydd yn agored ac yn dryloyw. Bydd hefyd yn darparu cyfleoedd i anwyliaid godi pryderon gydag archwilydd meddygol annibynnol am safon y gofal yn y cyfnod yn arwain at farwolaeth. Bydd cyfleoedd hefyd i archwilwyr meddygol roi sicrwydd bod y meddyg wedi sefydlu achos y farwolaeth yn gywir.
- Bydd atgyfeiriadau priodol i wasanaeth y crwner.

Caiff Rheoliadau Archwilwyr Meddygol (Cymru) 2024 eu gosod heddiw fel rhan o'r diwygiadau ehangach i ardystio marwolaethau sy'n cael eu cyflwyno yng Nghymru a Lloegr drwy Rheoliadau a osodir gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU, sef:

- Rheoliadau Tystysgrifau Meddygol Achos Marwolaeth 2024
- Rheoliadau Archwilwyr Meddygol (Lloegr) 2024
- Rheoliadau'r Archwilydd Meddygol Cenedlaethol (Swyddogaethau Ychwanegol) 2024

Nod diwygio'r broses ardystio marwolaethau a chyflwyno rôl statudol ar gyfer archwilwyr meddygol yw gwneud yn siŵr bod y system ar gyfer ardystio'r holl farwolaethau nad ydynt yn gofyn ymchwiliad gan grwner yn sicrhau bod craffu digonol i nodi ac atal gweithgarwch troseddol neu arferion gwael. Mae'n rhesymoli'r system bresennol, gan sicrhau bod lefel y craffu yn gymesur ac nad yw'n peri oedi gormodol i'r teulu mewn profedigaeth nac yn gosod beichiau gormodol ar ymarferwyr meddygol ac eraill sy'n ymwneud â'r broses.

Ei nod yw darparu gweithdrefn gyffredin ar gyfer ardystio marwolaethau sy'n sicrhau'r un lefel o graffu a sicrwydd, ni waeth a yw teulu'n dewis claddu neu amlosgi.

Mae adolygiad anstatudol presennol archwilwyr meddygol o achos y farwolaeth yn darparu mesurau diogelu ychwanegol i gynrychiolwyr yr ymadawedig. Mae'n rhoi cyfle iddynt ofyn cwestiynau am y farwolaeth ac i fynegi pryderon a all fod ganddynt mewn perthynas â gofal a thriniaeth eu hanwyliaid. Bydd archwilwyr meddygol, fel rhan o'u gwaith craffu, hefyd yn siarad â'r ymarferydd a fu'n gweini sy'n cwblhau'r Dystysgrif Feddygol Achos Marwolaeth ac yn adolygu cofnod y claf.

Mae'r gwasanaeth archwilwyr meddygol yng Nghymru yn gweithredu'n annibynnol ar y GIG, fel y sefydliad sy'n darparu gofal. Mae'r tair elfen o graffu yn caniatáu i'r archwilydd meddygol ddeall a oes unrhyw ffactorau a all ddarparu adborth annibynnol a chynnar gwerthfawr i fyrddau iechyd, ymddiriedolaethau a darparwyr gofal nad yw'n acíwt y GIG am faterion a all fod yn gysylltiedig â gofal cyn marwolaeth. Fel hyn, maent yn hyrwyddo dysgu a gwella yn y system iechyd. Yng Nghymru, mae archwilwyr meddygol yn ffordd arall i'r meddyg sy'n ardystio godi pryderon am ofal, y tu allan i'w sefydliadau eu hunain.

Lluniwyd Asesiad Effaith Integredig Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Rheoliadau Archwilwyr Meddygol (Cymru) 2024 a osodir heddiw.

Eitem 6.2

# SL(6)480 – Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2024

## Cefndir a diben

Mae *Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019* ("**Rheoliadau 2019"**) yn nodi'r cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr cymwys sy'n astudio cyrsiau gradd meistr ôl-raddedig yng Nghymru.

Mae'r pecyn cymorth cyrsiau gradd meistr ôl-raddedig presennol yn cynnwys benthyciadau a grantiau. Mae dwy elfen i'r grantiau: (i) grant sylfaenol cyffredinol £1,000, a (ii) grant cyfrannu at gostau hyd at £5,885 sy'n seiliedig ar brawf modd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2019 i:

- ddileu'r grant sylfaenol a'r grant cyfrannu at gostau o'r pecyn cymorth cyrsiau gradd meistr ôl-raddedig, a disodli'r grantiau gyda benthyciad i wrthbwyso'r gwahaniaeth;
- cynyddu uchafswm gwerth y cymorth drwy fesur chwyddiant (RPIX) i £18,950 (cynnydd 0.9 y cant); drwy gynyddu swm y benthyciad sydd ar gael.

Bydd y diwygiadau i'r cymorth grant ac uchafswm gwerth y cymorth yn gymwys i fyfyrwyr gradd Meistr ôl-raddedig newydd sy'n dechrau cwrs ar neu ar ôl 01 Awst 2024.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Er bod y Memorandwm Esboniadol yn datgan bod y cynigion wedi cael eu trafod â nifer o 'randdeiliaid allweddol' (gan gynnwys Prifysgolion Cymru, UCM Cymru a chynrychiolwyr y sector), ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n nodi chwe opsiwn a ystyrir gan Weinidogion Cymru i ddiwygio cymorth ariannol cyrsiau gradd meistr ôl-raddedig. Mae'n datgan y canlynol:

> *6.3 [...] Mae'r grantiau [a ddisgrifiwyd uchod] wedi'u dileu yn sgil pwysau sylweddol ar gyllidebau Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Mae angen gwneud arbedion. Mae angen gwneud newidiadau cyn blwyddyn academaidd 2024/25 oherwydd y pwysau penodol ar y gyllideb eleni.*
>
> *6.4 Cafodd yr opsiynau ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gradd Meistr ôl-raddedig ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 eu hystyried yn erbyn yr angen hwn i ailstrwythuro cyllidebau Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni'r pwysau cyllidebol sylweddol. Yn ogystal, mae pwysau chwyddiant parhaus yn effeithio ar gostau byw i fyfyrwyr. [...]*

Mae paragraff 8.4 yn yr adran 'Costau a manteision' o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan y canlynol:

> **O gymharu â'r polisi presennol, bydd myfyriwr yn colli isafswm o £1,000 ac uchafswm o £6,885 mewn cymorth grant ond gall wneud cais am fenthyciad uwch. Felly, mae dyled myfyriwr yn debygol o gynyddu**. **Gallai hyn atal rhai darpar fyfyrwyr rhag ymgymryd â chwrs ôl-raddedig – effaith datgymhellol.** Nid yw'n bosibl meintioli'r effaith hon. Fodd bynnag, bydd disodli grantiau gyda benthyciadau yn golygu na fydd myfyrwyr newydd yn colli unrhyw incwm wrth astudio o'i gymharu â charfannau blaenorol, gan leihau'r effaith datgymhellol. [pwyslais wedi'i ychwanegu]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**22 Ebrill 2024**

# SL(6)481 – Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 a Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019.

Mae rheoliad 2(2) yn diwygio'r ffioedd am wiriadau dogfennol sy'n ymwneud â phlanhigion penodol, cynhyrchion planhigion penodol neu wrthrychau eraill penodol sy'n tarddu o un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir. Mae hefyd yn darparu nad yw ffi yn daladwy am wiriadau ffisegol na gwiriadau adnabod sy'n ymwneud â nwyddau penodol o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein a'r Swistir ac yn darparu eithriadau i'r rheol honno.

Mae rheoliad 2(3) yn mewnosod tabl o blanhigion penodol, cynhyrchion planhigion penodol a gwrthrychau eraill penodol y mae'r ffioedd a ddiwygir gan reoliad 2(2) yn ymwneud â hwy. Mae'r tabl yn diweddaru ac yn cywiro'r ffioedd arolygu mewnforio ar gyfer *Solanum lycopersicum* o Morocco a'r Ynysoedd Dedwydd.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019. Mae paragraff (2) yn cywiro'r math o arolygiad y gellir codi ffi amdano o dan y Rheoliadau hynny.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn –

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Cafodd y rheoliadau hyn eu hystyried yn flaenorol gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2024. Nododd adroddiad y Pwyllgor dri gwall technegol y cytunodd Llywodraeth Cymru i'w

cywiro. Ar 3 Ebrill 2024, cafodd y rheoliadau eu tynnu yn ôl yn ffurfiol o dan Reol Sefydlog 27.1 a'u hailosod ar 16 Ebrill 2024. Mae'r gwallau a nodwyd wedi cael eu cywiro. Ar 15 Mawrth 2024, anfonodd y Pwyllgor lythyr at Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol, yn dweud, pan fyddai is-ddeddfwriaeth yn cael ei defnyddio i ddiwygio gwallau mewn offerynnau blaenorol, y byddai'n ddefnyddiol pe bai sylw yn cael ei dynnu at hynny yn y memorandwm esboniadol cysylltiedig. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ac yn croesawu'r ffaith y tynnwyd sylw clir at y cywiriadau hyn i'r Pwyllgor yn adran 2 o'r memorandwm esboniadol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**24 Ebrill 2024**

# SL(6)477 – Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau hyn") yn gweithredu newidiadau a wnaed i Ddeddf Adeiladu 1984 ("Deddf 1984") a gyflwynwyd gan Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 ("Deddf 2022").

Mae'r Rheoliadau hyn yn cychwyn adran 49(1) a (2) o Ddeddf 2022 ac yn diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynol mewn perthynas â Chymru:

- Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 (O.S. 2010/2215);
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (O.S. 2005/1541);
- Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012 (O.S. 2012/3118).

Mae’r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 25 Ebrill 2024 ac maent yn rhan o gyfres o ddeddfwriaeth newydd sy'n dod â darpariaethau a wnaed gan Ddeddf 2022 i rym a gafodd y Cydsyniad Brenhinol yn 2022. Mae newidiadau i Ddeddf 1984 wedi cael eu gweithredu fesul cam er mwyn cyflwyno’r drefn rheoli adeiladu newydd.

Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn darparu mai diben cyffredinol y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y fframwaith rheoleiddiol yn parhau i fod yn gymwys, lle bo hynny'n briodol, wrth i reolaeth adeiladu yn y sector preifat newid o Arolygwyr Cymeradwywyr, o dan yr hen drefn, i Gymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu o dan y drefn newydd.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu’r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio'r gwahanol ddulliau drafftio a ddefnyddiwyd mewn perthynas â rheoliad 3(j) a (k). Mae'r ddau reoliad yn diwygio cyfeiriadau at "approved inspector" i "approver" fel eu bod yn parhau i fod yn gymwys i gymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu. Mae rheoliad 3(j) yn cyfeirio'n benodol at *"[b]aragraff 4**(a)** a amnewidir"*, tra bod rheoliad 3(k) yn cyfeirio'n syml at "[b]*aragraff 3 a amnewidir*". O ystyried y tebygrwydd rhwng rheoliad 20(6) a 20(6A), fel y cyfeirir ato yn rheoliad 3(j) a (k), rhaid gofyn, pam fod y drafftio yn wahanol drwy bennu'r is-baragraff mewn un ddarpariaeth ond nid y llall.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 22 Ebrill 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: *Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2024***

<u>Pwynt Craffu Technegol 1:</u> Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt ac mae'n cytuno y byddai wedi bod yn well pe bai'r drafftio yn gyson. Dylai'r cyfeiriad yn rheoliad 3(j) fod yn gyfeiriad at "*mharagraff 4 a amnewidir*" yn hytrach na "*mharagraff 4(a) a* amnewidir". Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y drafftio presennol yn drysu'r darllenydd ac mae felly yn briodol glir.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomy@senedd.cymru

Sarah Murphy AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@senedd.cymru

22 Ebrill 2024

Annwyl Paul, Sarah,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb ar gysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi fy mod wedi bod yng nghyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach ddydd Mawrth 16 Ebrill 2024.

Roedd Greg Hands, y Gweinidog Gwladol yn yr Adran Busnes a Masnach; y Gweinidog Conor Murphy o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, uwch swyddog Llywodraeth yr Alban, a chynrychiolwyr Swyddfeydd Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Buom yn trafod rhai o'r canlyniadau o 13eg cynhadledd weinidogol Sefydliad Masnach y Byd (MC13), yn ogystal â'r trafodaethau parhaus gyda Chyngor Cydweithredol y Gwlff ac India.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto i roi gwybod ichi am ddyddiad y cyfarfod nesaf.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygiadau Amrywiol) 2024** |
| **DYDDIAD** | **23 Ebrill 2024** |
| **GAN** | **Huw Irranca-Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.** |

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno cael gwybod ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnodd y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, yr Arglwydd Douglas-Miller imi gytuno i'r bwriad i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygiadau Amrwyiol) 2024 ("Rheoliadau 2024") i fod yn gymwys i'r Deyrnas Unedig.

Gwnaed yr OS uchod gan y Gweinidog Gwladol drwy arfer y pwerau a roddir o dan:

- Erthyglau 72(3), 73(2), 76(4) a 105(6) o Reoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch mesurau i ddiogelu rhag plâu planhigion ("y Rheoliad Iechyd Planhigion");
- Erthyglau 22(2), 48(h), 54(3), 77(1), 90 a 144(6) o Atodiad 6 i Reoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor a pharagraff 3(2) ohono, ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion ("y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol");

Diben Rheoliadau 2024 yw gweithredu cerrig milltir Model Gweithredu Targed y Ffin ("BTOM"), a ddaw i rym ar 30 Ebrill, i amddiffyn bioddiogelwch a chefnogi masnach rhwng Prydain Fawr a thrydydd gwledydd. Mae'n cyflwyno cyfundrefn fewnforio fyd-eang newydd sy'n seiliedig ar risg ar gyfer nwyddau o'r Undeb Ewropeaidd a gweddill y byd o ddiwedd mis Ebrill 2024 ymlaen. Mae'r newidiadau a wneir gan Reoliadau

2024 yn ymwneud â rheolaethau ar fewnforion i Gymru, Lloegr a'r Alban ar gyfer y gyfres o nwyddau a elwir gyda'i gilydd yn nwyddau iechydol a ffytoiechydol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n eithrio nwyddau sy'n cyrraedd o Iwerddon rhag y gofyniad am wiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol. Nid ydym eto wedi cytuno â llywodraethau'r DU a'r Alban ar ddyddiad ar gyfer dechrau gwiriadau ffisegol ar allforion o Iwerddon, ac rydym eisoes wedi cyhoeddi na fydd ein cyfleusterau yn weithredol tan y gwanwyn 2025.

Ar 28 Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU saib i gyflwyno rheolaethau mewnforio pellach ar nwyddau iechydol a ffytoiechydol o'r UE i Brydain Fawr, a'i bwriad i ddatblygu Model Gweithredu Targed Ffiniau (BTOM) sy'n nodi cyfundrefn newydd o reolaethau mewnforio ar ffiniau. Cyhoeddwyd y newidiadau arfaethedig i drefn rheolaethau swyddogol ffiniau iechydol a ffytoiechydol yn y BTOM ym mis Awst 2023. Bydd y drefn newydd hon yn berthnasol i'r un graddau i'r UE a nwyddau o weddill y byd, gydag ymagwedd gymesur sy'n seiliedig ar risg ac yn ddull datblygedig yn dechnolegol o fynd i'r afael a rheolaethau.

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.**

Nid yw Rheoliadau 2024 yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt o eiddo Llywodraeth y DU ar fioddiogelwch yn y dyfodol. Nid yw'r Rheoliadau yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd.

Caiff rheolaethau iechydol a ffytoiechydol ar fewnforion o'r UE a diwygio'r drefn rheoli iechydol a ffytoiechydol gyfredol ar gyfer mewnforion o weddill y byd eu cyflwyno'n raddol. Mae hyn yn targedu llwythi risg uwch tra'n symleiddio prosesau lle mae'n ddiogel gwneud hynny, er mwyn hwyluso masnach. Mae'r BTOM yn cael ei weithredu trwy ddull graddol o weithredu, wedi'i alluogi gan gyfres o newidiadau deddfwriaethol cyn y cerrig milltir cyhoeddedig.

Hoffwn sicrhau'r Senedd mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion o fewn cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision i gydweithio â Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, rwyf wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod o ran newid polisi yn y dyfodol, cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, cydgysylltu ar draws y DU a chysondeb.

**Diben Rheoliadau 2024**

Diben Rheoliadau 2024 yw amddiffyn bioddiogelwch, sicrhau diogelwch bwyd a chefnogi masnach, drwy gyflwyno y cerrig milltir a nodir yn y Model Gweithredu Targed y Ffin, a gytunwyd gan holl weinyddiaethau Prydain.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi pwrpas, ac effaith Rheoliadau 2024, ar gael yma:

https://www.legislation.gov.uk/uksi/2024/541/contents/made

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud yr offeryn hwn o ganlyniad i'r cytundeb ar Fodel Gweithredu Targed y Ffin rhwng y tair gweinyddiaeth ym Mhrydain i gyflwyno cyfundrefn iechydol a ffytoiechydol ystyrlon a chyson ar gyfer nwyddau a fewnforir i Brydain i amddiffyn bioddiogelwch a sicrhau bod safonau diogelwch bwyd yn cael eu cynnal.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/HID/5010/24

Sarah Murphy AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

25 Ebrill 2024

Annwyl Sarah

Ymhellach at fy llythyr o 18 Mawrth 2024. Rwy'n ysgrifennu at y Pwyllgor i roi gwybod ichi fy mod wedi cydsynio i'r Ysgrifennydd Gwladol osod y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Newidiadau Amrywiol) 2024 o ran Cymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma:

WS-LD16459 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol) (Diwygiadau Amrywiol) (2024)

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn ar ôl i Fodel Gweithredu Targed y Ffin (BTOM) gael ei gyhoeddi. Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Roedd yr Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a chafodd ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 22 Ebrill 2024. Y dyddiad cychwyn yw 30 Ebrill.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion GwledigCabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 8.3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2024** |
| **DYDDIAD** | **23 Ebrill 2024** |
| **GAN** | **Huw Irranca-Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig** |

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno cael gwybod fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Gweinidog Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnodd y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, yr Arglwydd Douglas-Miller imi gytuno i'r bwriad i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau 2024") i fod yn gymwys i'r Deyrnas Unedig.

Gwnaed yr OS uchod gan y Gweinidog Gwladol drwy arfer y pwerau a roddir o dan:

- baragraff 2 o Atodiad 6 i Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau iechyd a lles anifeiliaid, cynhyrchion iechyd planhigion a diogelu planhigion, a
- paragraff 11A o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011.

Diben Rheoliadau 2024, mewn cydweithrediad â Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygiadau Amrywiol) 2024 yw gweithredu ail garreg filltir Model Gweithredu Targed y Ffin o 28 Ebrill 2024. Mae Rheoliadau 2024 yn diwygio dyddiad diwedd y Cyfnod Graddoli Trosiannol o 29 Ebrill 2024 i 31 Ionawr 2025 fel y gall ail gam Model Gweithredu Targed y Ffin ddechrau o 30 Ebrill 2024 ymlaen.

Nid ydym eto wedi cytuno â llywodraethau'r DU a'r Alban ar ddyddiad ar gyfer dechrau gwiriadau ffisegol ar allforion o Iwerddon, ac rydym eisoes wedi cyhoeddi na fydd ein

cyfleusterau yn weithredol cyn gwanwyn 2025, ac felly bydd angen estyniad pellach i'r cyfnod graddoli trosiannol o ddiwedd Ionawr 2025.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â pharatoi cig sy'n berthnasol i Loegr yn unig. Rwyf wedi gwneud diwygiadau tebyg ar gyfer Cymru yn Rheoliadau Paratoadau Cig (Cymru) (Diwygio) 2024 a osodwyd gerbron y Senedd ar 12 Ebrill.

Gosodwyd Rheoliadau 2024 gerbron Senedd y DU ar 22 Ebrill 2024, a byddant yn dod i rym ar 28 Ebrill 2024.

Nid yw Rheoliadau 2024 yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt o eiddo Llywodraeth y DU ar fioddiogelwch yn y dyfodol.

Nid yw'r Rheoliadau yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd, ac nid ydynt yn creu, yn diwygio, nac yn dileu unrhyw swyddogaethau a roddir i Weinidogion Cymru.

Hoffwn sicrhau'r Senedd mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion o fewn cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision i gydweithio â Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, rwyf wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod o ran newid polisi yn y dyfodol, cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, cydgysylltu trawslywodraethol a chysondeb.

Diben Rheoliadau 2024 yw amddiffyn bioddiogelwch, sicrhau diogelwch bwyd a chefnogi masnach, drwy gyflwyno ail garreg filltir Model Gweithredu Targed y Ffin a gytunwyd gan holl weinyddiaethau Prydain.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith Rheoliadau 2024, ar gael yma:

The Official Controls (Extension of Transitional Periods) (Amendment) Regulations 2024 (legislation.gov.uk)

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud yr offeryn hwn o ganlyniad i'r cytundeb ar Fodel Gweithredu Targed y Ffin rhwng y tair gweinyddiaeth ym Mhrydain i gyflwyno cyfundrefn glanweithiol a ffytoiechydol cydlynol a chyson ar gyfer nwyddau a fewnforir i Brydain i amddiffyn bioddiogelwch a sicrhau bod safonau diogelwch bwyd yn cael eu cynnal.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/HIDCC/0895/24

Sarah Murphy AS,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru

24 Ebrill 2024

Annwyl Sarah,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid i osod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2024.

Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma:

https://senedd.wales/media/55ehtwo0/ws-ld16460-w.pdf

Gwnaed y Rheoliadau hyn drwy ddefnyddio pwerau ym

- mharagraff 2 o Atodiad 6 i Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau iechyd a lles anifeiliaid, cynhyrchion iechyd planhigion a diogelu planhigion, a
- paragraff 11A o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011.

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn ar ôl i Fodel Gweithredu Targed y Ffin gael ei gytuno a'i gyhoeddi.

Mewn cydweithrediad â Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygiadau Amrywiol) 2024, bydd yr offeryn statudol hwn yn gweithredu ail garreg filltir Model Gweithredu Targed y Ffin o 28 Ebrill 2024. Diben yr OS yw diwygio dyddiad diwedd y Cyfnod Graddoli Trosiannol o 29 Ebrill 2024 i 31 Ionawr 2025 fel y gall ail gam Model Gweithredu Targed y Ffin ddechrau o 30 Ebrill 2024 ymlaen.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae hefyd yn diwygio Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2020. Rwyf wedi gwneud darpariaethau cyfatebol ar gyfer Cymru yn Rheoliadau Paratoadau Cig (Cymru) (Diwygio) 2024 a osodwyd gerbron y Senedd ar 12 April.

Nid ydym eto wedi cytuno â llywodraethau'r DU a'r Alban ar ddyddiad ar gyfer dechrau gwiriadau ffisegol ar allforion o Iwerddon, ac rydym eisoes wedi cyhoeddi na fydd ein cyfleusterau yn weithredol cyn gwanwyn 2025, ac felly bydd angen estyniad pellach i'r cyfnod graddoli trosiannol o ddiwedd Ionawr 2025.

Defnyddiwyd y weithdrefn negyddol ar gyfer yr Offeryn Statudol, cafodd ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 22 Ebrill 2024, a bydd yn dod i rym ar 28 Ebrill 2024.

Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru mewn materion lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, ond er hynny, o dan rai amgylchiadau, mae manteision mewn cydweithio â Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny. Rwyf felly wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod, er mwyn cydgysylltu gwaith ar draws y DU, ac er cysondeb.

Rwy'n anfon llythyr tebyg at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

Huw Irranca-Davies AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/05086/24

Sarah Murphy MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

24 Ebrill 2024

Annwyl Sarah,

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor o'r bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2024 ("y Rheoliadau") erbyn 9 Mai 2024.

Rwyf wedi derbyn llythyr gan yr Arglwydd Douglas-Miller, y Gweinidog dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau. Gwneir y Rheoliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, gan arfer pwerau a roddir gan Erthyglau 5(3), 30(1), 37(5) a (5A), 40(3), 41(3), 72(3) a 105(6) o Reoliad (UE) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau diogelu rhag plâu planhigion. Mae Erthygl 2a(2) o Reoliad (UE) 2016/2031 yn darparu y gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau o'r fath gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru .

Diben y Rheoliadau yw diweddaru agweddau ar y Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol i gyflwyno'r newidiadau canlynol:

- Cyflwyno mesurau rhag cyflwyno planhigion, pren a sglodion pren sy'n cynnal y plâu *Chrysobothris femorata* a *C. mali* o UDA a Canada i atal y plâu rhag cael eu cyflwyno i Brydain Fawr.
- Rheoli hadau *Solanum sisymbriifolium* ("Codwarth-yr-ychen coch") ar sail y ffaith ei fod yn cynnal firoid y gloronen bigfain, pla nad yw'n bla cwarantin, ar ôl canfod ei fod yn cynnal y pla hwn yn ddiweddar.
- Bob blwyddyn mae nifer fach o goed Nadolig Norwyaidd, sydd ag arwyddocâd diwylliannol, yn cael eu rhoi i Lywodraeth y DU gan Lywodraeth Norwy a'i rhanbarthau. Bydd y rheoliadau'n darparu gofyniad mewnforio penodol ar gyfer cyflwyno'r coed Nadolig sbriws hyn, na fwriedir eu rhoi ar y farchnad, o Norwy i'w harddangos am gyfnod byr yn unig.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Newid statws rheoleiddio rhai plâu yn dilyn adolygiad technegol o'r risg maent yn ei pheri i fioddiogelwch Prydain Fawr ar hyn o bryd.
- Cywiro rhai gwallau a nodwyd yn y Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol

Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, a disgwylir iddo gael ei osod gerbron Senedd y DU ar 9 Mai 2024.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn ystyrir ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar lefel Prydain Fawr. Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â maes datganoledig, fodd bynnag, maent yn effeithio ar fewnforio planhigion a chynhyrchion planhigion ar draws Prydain Fawr. Mae llawer o'r newidiadau yn y Rheoliadau yn ymwneud â mewnforio planhigion a chynhyrchion planhigion. Mae'r rhan fwyaf o'r nwyddau hyn sy'n dod i mewn i Gymru yn dod drwy borthladdoedd Lloegr a byddent yn ddarostyngedig i'w deddfwriaeth mewnforio. Gallai cyflwyno rheoliadau ar wahân yng Nghymru a Lloegr greu baich ychwanegol ar yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), ac ar fusnesau, masnachwyr a thyfwyr. Mae rheoleiddio ar lefel Prydain Fawr yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson, gyda'r rheoliadau ar gael mewn un offeryn heb unrhyw risg o wahaniaeth deddfwriaethol ym Mhrydain Fawr. Yn ogystal, mae'n debygol y byddai gwneud Rheoliadau i Gymru yn unig ar gyfer rhai darpariaethau o fewn yr OS hwn yn golygu goblygiadau o ran hysbysu Sefydliad Masnach y Byd (WTO) am y newidiadau.

Hoffwn roi sicrwydd i'r Pwyllgor hwn mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion o fewn cymhwysedd datganoledig. Felly, rwy'n rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Nid oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y mater hwn.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Llŷr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet**
**Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a
Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

19 Ebrill 2024

Annwyl Sarah a Peredur

Diolch ichi am eich llythyr ar y cyd yn ymateb i'm llythyrau at Gadeiryddion eich priod Bwyllgorau yn y Senedd.

Hoffwn egluro unrhyw gamddealltwriaeth bosibl o ran fy nghyfarfod arfaethedig. Nid wyf wedi cyrraedd pwynt eto lle y gallaf wneud cynigion ynghylch strwythur ar gyfer y dyfodol i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Cyn dechrau'r gwaith ar y cynigion, fy mwriad oedd i'm swyddogion gyfarfod â chi i gael eich barn a'ch syniadau cychwynnol, gan gynnwys trafod cynigion sydd gennych chi, deall eich safbwyntiau am elfennau hanfodol unrhyw strwythur ar gyfer y dyfodol, a sut y gallai'r cynigion gael eu rhoi ar waith. Y rheswm dros hyn yw fy mod yn awyddus ichi fod yn rhan o'r broses hon o'r cychwyn cyntaf er mwyn sicrhau y gellir cynnwys eich cynigion chi yn gynnar yn y cam cynllunio.

Yng nghyllideb y Canghellor ar 6 Mawrth, cafwyd enghraifft o'r mathau o ddigwyddiadau allanol y mae'r pŵer a ddarperir yn Neddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 wedi'i anelu atynt yn benodol. Cyhoeddodd y Canghellor y byddai trosglwyddiadau'r dreth dir y dreth stamp sy'n ymwneud â rhyddhad anheddau lluosog, yn amodol ar gymeradwyaeth Senedd y DU, yn cael eu diddymu o 1 Mehefin 2024 ymlaen. Roedd penderfyniadau Deddf Casglu Trethi Dros Dro 1968 a basiwyd wedi araith y Canghellor yn cynnwys diddymu'r rhyddhad a rheolau trosiannol cysylltiedig. O ganlyniad i'r hyn sy'n gyffredin rhwng y rheolau yn nhreth dir y dreth stamp a'n rhyddhad treth trafodiadau tir ein

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hunain ar gyfer caffaeliadau sy'n ymwneud ag anheddau lluosog, bydd addasiadau grant bloc a gostyngiad yn ein hadnoddau yn sgil cyhoeddiadau'r Canghellor.

Roeddwn wedi bwriadu lansio ymgynghoriad i geisio barn ar gynigion i ddiwygio'r rhyddhad ar gyfer caffaeliadau sy'n ymwneud ag anheddau lluosog yn rhan o'r gyllideb derfynol ar 5 Mawrth. Fodd bynnag, gan ystyried bod datganiad y Canghellor wedi'i drefnu at y diwrnod canlynol, penderfynais aros er mwyn gweld a fyddai unrhyw gyhoeddiadau yn effeithio ar fy nghynlluniau. Ni fydd o syndod ichi fod Llywodraeth y DU wedi dewis peidio â rhannu eu cynlluniau nhw â mi, na'm swyddogion, cyn cyhoeddiad y Canghellor. Fel y gwyddoch, gwnes i lansio ymgynghoriad ar 8 Ebrill ynghylch diddymu rhyddhad treth trafodiadau tir ar gyfer caffaeliadau sy'n ymwneud ag anheddau lluosog a rhai materion eraill.
Mae diddymu trosglwyddiadau'r dreth dir y dreth stamp sy'n ymwneud â rhyddhad anheddau lluosog yn enghraifft amserol o'r materion a all godi oherwydd digwyddiadau allanol y bydd angen inni sicrhau y gall strwythur y dyfodol ddelio â nhw.

Gofynnaf felly ein bod yn mynd ati i drefnu'r cyflwyniad a'r cyfarfod cychwynnol hwn gan fy mod yn awyddus iawn i glywed pa gynigion sydd gan Aelodau o'r ddau Bwyllgor ynghylch yr hyn a allai sicrhau'r strwythur priodol ar gyfer y dyfodol.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa’r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Pwyllgor Cyllid**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

19 Mawrth 2024

Annwyl Rebecca

Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022: Adran 6 (Adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf hon)

Diolch am eich llythyr ar 6 Mawrth 2024, a gafodd ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 11 Mawrth, a'r Pwyllgor Cyllid ar 13 Mawrth.

Rydym yn ddiolchgar ichi am gynnig y cyfle inni gael cyflwyniad gan eich swyddogion am adolygiad o weithrediad ac effeithiolrwydd y Ddeddf uchod.

Cyn ystyried y mater ymhellach, byddem yn ddiolchgar o gael manylion am y cylch gorchwyl a'r amserlenni ar gyfer yr adolygiad, copi o unrhyw ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ac, os nad yw wedi'i chynnwys yn y ddogfen honno (neu nad yw ar gael), unrhyw wybodaeth am opsiynau ar gyfer mecanweithiau deddfwriaethol amgen sy'n cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Ein cyf/Our ref: RE/78/2024

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru

06 Mawrth 2024

Annwyl Huw,

Ar 8 Medi 2022, cafodd Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022[1] ('y Ddeddf') y Cydsyniad Brenhinol. Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, i wneud rheoliadau ar gyfer gwneud y newidiadau angenrheidiol neu briodol i fynd i'r afael â'r pedwar diben penodedig a ganlyn:

- sicrhau na osodir treth gwarediadau tirlenwi neu dreth trafodiadau tir pan fyddai gwneud hynny yn anghydnaws ag unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol;
- amddiffyn rhag osgoi trethi mewn perthynas â threth gwarediadau tirlenwi neu dreth trafodiadau tir;
- ymateb i newid i dreth ragflaenol sy'n effeithio, neu a allai effeithio, ar y symiau a delir i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 118(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;
- ymateb i benderfyniad llys neu dribiwnlys sy'n effeithio, neu a allai effeithio, ar weithrediad unrhyw un neu ragor o Ddeddfau Trethi Cymru neu reoliadau a wneir o dan unrhyw un neu ragor o'r Deddfau hynny.

Yn ystod gwaith craffu'r Senedd[2], cyflwynwyd nifer o welliannau i'r bil i fynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor ac Aelodau'r Senedd. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- rhwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi adolygiad o'r Ddeddf (adran 6 o'r Ddeddf) erbyn 8 Medi 2026 (bedair blynedd ar ôl y Cydsyniad Brenhinol);

[1]Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 (legislation.gov.uk)
[2]Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 (senedd.cymru)

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- cymal machlud (adran 7 o'r Ddeddf) a fydd yn cael effaith ar 8 Medi 2027 (yn amodol a fydd y Senedd yn cymeradwyo estyniad tan 30 Ebrill 2031 fan bellaf).

Ymhellach i hyn, roedd adran 6 hefyd yn darparu fel bod yn rhaid i'r adolygiad hwnnw gynnwys asesiad gan Weinidogion Cymru o fecanweithiau deddfwriaethol amgen ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru a rheoliadau a wneir o dan unrhyw un o'r Deddfau hynny. At hynny, wrth gynnal yr adolygiad, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Senedd Cymru ac unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn briodol.

Er mwyn i'r adolygiad, gan gynnwys unrhyw ymgynghori perthnasol a phriodol, gael ei gwblhau erbyn y dyddiad cau statudol, hoffwn gynnig cyfle i'r Pwyllgor gael cyflwyniad byr gan fy swyddogion. Ystyried y dull o fynd ati i wneud newidiadau amserol i Ddeddfau Trethi Cymru etc. a chlywed unrhyw awgrymiadau y gallai fod gan y Pwyllgor ynghylch mecanweithiau deddfwriaethol amgen priodol fydd y bwriad.

Rwy'n gwneud cynnig tebyg i'r Pwyllgor Cyllid.

Os yw hynny'n dderbyniol, bydd fy swyddogion yn cysylltu â'r Clerc i wneud y trefniadau priodol.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Diweddariad ar gynigion i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd cyflenwi weips gwlyb sy'n cynnwys plastigau a fêps untro** |
| **DYDDIAD** | **22 Ebrill 2024** |
| **GAN** | **Huw Irranca-Davies, AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig** |

Mae ein Strategaeth Economi Gylchol, *Mwy nag Ailgylchu*, a gyhoeddwyd yn 2021, yn datgan ein nodau i sicrhau Cymru ddiwastraff erbyn 2050. Un o ymrwymiadau allweddol y Strategaeth yw rhoi'r gorau'n raddol i ddefnyddio cynhyrchion plastig untro, gyda'r amcan tymor hwy o fynd i'r afael â chynhyrchion untro eraill waeth beth fo'u deunydd.

Yn ein hymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2020, *Lleihau Plastig Untro*, cafwyd cefnogaeth ysgubol ar gyfer cynigion i wahardd nifer o gynhyrchion plastig untro sy'n aml yn cael eu taflu fel sbwriel yng Nghymru, gyda dros 85% o'r ymatebwyr o blaid. Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i fynd ymhellach gyda rhyw 60 o gynhyrchion ychwanegol yn cael eu hawgrymu ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

Fe wnaethom wrando ar y galwadau hyn a chyflwyno Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (y Ddeddf). Dyma ddarn allweddol o ddeddfwriaeth sydd â'r nod o droi'r llanw ar lygredd plastig. Mae cam cyntaf y gwaharddiadau ar gyfer y cynhyrchion sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf eisoes wedi dechrau a bydd yr ail gam yn cael ei gwblhau cyn diwedd tymor y Senedd hon, yn amodol ar ewyllys y Senedd.

Wrth i'r Ddeddf basio drwy'r Senedd, cytunodd fy rhagflaenydd i flaenoriaethu ystyried gwaharddiadau ar gyfer sawl math arall o gynnyrch, roedd hyn yn cynnwys weips gwlyb sy'n cynnwys plastig. Cytunwyd ar ddull gweithredu ledled y DU i gyflwyno rheoliadau i wahardd cyflenwi weips gwlyb sy'n cynnwys plastig, sydd i'w ddarparu gan bob Llywodraeth unigol. Bydd mabwysiadu'r dull hwn yn sicrhau cysondeb o ran sut y caiff ein rheoliadau eu gweithredu a bydd yn rhoi dealltwriaeth glir i fusnesau a gweithgynhyrchwyr o'r hyn sy'n ofynnol ganddynt.

Rhwng 14 Hydref a 25 Tachwedd 2023, fe wnaethom ymgynghori ar y cyd â Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar y gwaharddiad arfaethedig ar gynhyrchu, cyflenwi a gwerthu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig. Cafwyd cyfanswm o 1461 o ymatebion i'r ymgynghoriad o Gymru.

Mae ymateb Llywodraethau'r pedair gwlad bellach wedi'i gyhoeddi, mae'n nodi canlyniadau'r ymgynghoriad a'r mesurau y bydd y pedair llywodraeth nawr yn eu datblygu. Mae hyn yn cynnwys cytundeb i:

- **Wahardd cyflenwi weips gwlyb sy'n cynnwys plastig**. Rydym wedi gwrando ar randdeiliaid ac yn cydnabod maint y diwydiant gweithgynhyrchu yn y DU. Felly, fe wnaethom benderfynu cyflwyno gwaharddiad ar gyflenwi'r weips hyn, yn unol â chwmpas y gwaharddiadau a gyflwynwyd o dan y Ddeddf. Bwriad hyn yw lliniaru effaith economaidd y gwaharddiad a lleihau'r posibilrwydd o golli swyddi yn y diwydiant.

- Darperir **cyfnod pontio o 18 mis** i alluogi gweithgynhyrchwyr i symud y gwaith cynhyrchu i ddeunyddiau amgen ac i leihau'r risg y byddai stociau sy'n weddill yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi neu'n cael eu llosgi.

- Darparu **eithriad** ar gyfer cyflenwi a gwerthu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig at ddibenion diwydiannol a meddygol. Daw hyn yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad a amlygodd bod dewisiadau amgen di-blastig o safbwynt rhai defnyddiau yn anaddas, neu nad oes unrhyw ddewisiadau amgen ar gael. Bydd manylion llawn yr eithriadau hyn yn cael eu cynnwys yn y rheoliadau, fodd bynnag, bydd yn caniatáu i fusnesau fel ysbytai a safleoedd cynhyrchu bwyd brynu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig gan fusnesau eraill, fel cyfanwerthwyr. I'r rhai sy'n derbyn gofal meddygol neu sydd angen gofal meddygol yn eu cartref eu hunain, bydd yr eithriad yn caniatáu i fferyllfeydd cofrestredig gyflenwi a gwerthu. Ni chaniateir rhoi weips gwlyb sy'n cynnwys plastig ar werth ar silffoedd a bydd rhaid i gwsmeriaid y mae angen y cynhyrchion hyn arnynt at ddibenion meddygol ofyn yn benodol i'r fferyllydd amdanynt. Mae hwn yn fodel tebyg i'r hyn a weithredwyd ar gyfer y gwaharddiad gwellt plastig.

Ein bwriad yw bod y gwaharddiad ar weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn dod i rym erbyn Mehefin 2026.

O dan ddeddfwriaeth ar wahân, rydym hefyd yn cymryd camau i wahardd cyflenwi fêps untro. Mae'r cynhyrchion hyn yn cael effaith amgylcheddol sylweddol ac yn tanseilio ein hymdrech o symud tuag at economi gylchol. Mae dros 360 miliwn o fêps o'r fath yn cael eu prynu bob blwyddyn yn y DU, a deunyddiau gwerthfawr a chritigol fel lithiwm a chopr yn cael eu taflu'n rheolaidd, a allai fod fel arall yn cael eu defnyddio i bweru bron i 5,000 o gerbydau trydan.

Rydym wrthi'n datblygu'r rheoliadau hyn ac rwy'n cadarnhau mai ein bwriad yw i'r gwaharddiadau ar fêps untro ddod i rym yng Nghymru ar 1 Ebrill 2025. Bydd hyn yn cyd-

fynd â gwaharddiadau tebyg yn Lloegr a'r Alban a bydd yn rhoi'r amser angenrheidiol i fusnesau baratoi, gyda chanllawiau a deunyddiau cyfathrebu a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â grwpiau sy'n cynrychioli busnesau yn cael eu cyhoeddi i gefnogi'r broses.

Rwyf wedi ymrwymo i gefnogi camau gweithredu i leihau gwastraff a chynyddu effeithlonrwydd adnoddau drwy ddilyn egwyddorion yr hierarchaeth wastraff: Lleihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu. Mae hyn yn cynnwys symud i ffwrdd oddi wrth fodel cymryd, gwneud a gwastraffu, a thuag at economi gylchol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Y diweddaraf am ddatblygu Cynllun Dychwelyd Ernes** |
| **DYDDIAD** | **25 Ebrill 2024** |
| **GAN** | **Huw Irranca-Davies AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig** |

Drwy fynd ati i gyflawni'n hymrwymiad i sicrhau dyfodol cryfach, tecach a mwy cynaliadwy i Gymru, rydym wedi bod yn gweithio ar ddatblygu Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd yn unol â'r ymrwymiad i gyflwyno cynllun yn *Mwy nag Ailgylchu*, ein strategaeth economi gylchol, a *Cymru Sero Net*, ein cynllun i leihau allyriadau.

Mae Cymru eisoes yn genedl sy'n ailgylchu; ein perfformiad ailgylchu yw'r gorau yn y DU ac mae ymysg y gorau yn y byd.  Mae ein hanes o gyflawni wedi ei ategu gan amcanion hir dymor eglur, polisïau cyson, gweithdrefn reoleiddio flaengar a buddsoddiad parhaus - a chefnogaeth partneriaeth lwyddiannus gyda diwydiant a gyda'n hawdurdodau lleol.

Gan adeiladu ar ein llwyddiant hyd yma, rydym wedi ymrwymo i barhau ein taith, gan gydnabod arwyddocâd amgylcheddol yr argyfwng hinsawdd a natur a phwysigrwydd economaidd cadernid a chystadleugarwch mewn economi fyd-eang sy'n datgarboneiddio. Wedi cyflwyno ein Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn ddiweddar, mae cyflwyno cynllun dychwelyd ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd ar y cyd â Chyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig dros becynnu yn gam nesaf pwysig.

Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod cynllun dychwelyd ernes yn ffordd hynod o effeithiol o ddal cynwysyddion diodydd fel nad ydynt yn cael eu gwastraffu ac fel y gallant fynd yn ôl i'r economi.   Trwy wneud hynny, nid yn unig y mae'n effeithiol wrth fynd i'r afael ag allyriadau ac yn lleihau sbwriel yn sylweddol, ond mae hefyd yn lleihau'r angen i echdynnu deunyddiau crai a'r difrod y gall hynny ei achosi, yn cefnogi ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau, ac yn lleihau faint o ynni sydd ei angen wrth weithgynhyrchu. Trwy sicrhau deunyddiau ailgylchadwy o ansawdd uchel wedi eu didoli a chynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio o bosibl, gellid galluogi economi fwy cylchol, gan fod o fudd i gynhyrchwyr a defnyddwyr, creu cyfleoedd economaidd newydd, a lleihau dibyniaeth ar gadwyni cyflenwi byd-eang cyfnewidiol.

Felly, rwy'n falch o fod yn gwneud datganiad ar y cyd ynghyd â'r Gweinidogion sy'n gyfrifol am ddatblygu'r cynllun yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban ar y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu elfennau o bolisi y cytunir arnynt er mwyn gwneud y mwyaf o'r rhyngweithredu rhwng ein cynlluniau.

O'r dechrau un, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio gweithio mewn partneriaeth gyda'r llywodraethau eraill er mwyn datblygu dull gweithredu cydgysylltiedig o safbwynt cynllun dychwelyd ernes. Rwyf felly'n croesawu'r cytundeb y daethom iddo yn dilyn gwaith dwys mewn partneriaeth â'n cymheiriaid yng ngwledydd eraill y DU i gytuno ar fframwaith eglur ar gyfer rhyngweithredu ar draws amrywiaeth eang o feysydd a fydd gyda'i gilydd yn sail i'n cynlluniau. Mae'r rhain yn cynnwys ar lefel yr ernes, maint y cynwysyddion o fewn y cwmpas, eithriad ar gyfer cynhyrchion nad oes nifer ohonynt yn cael eu cynhyrchu, cofrestru ac adrodd, labelu a phwyntiau dychwelyd.

Rydym hefyd wedi cytuno i ohirio cyflwyno cynllun dychwelyd ernes yng Nghymru yn unol â'r gwledydd eraill fel y bydd holl gynlluniau'r DU yn cael eu cyflwyno ar yr un pryd ym mis Hydref 2027. Wrth wneud hynny, rydym ar y cyd wedi cydnabod yr alwad gan y diwydiant ac wedi tynnu ar yr hyn a ddysgwyd o gynlluniau rhyngwladol gan bwysleisio'r angen i ddarparu digon o amser i'r diwydiant baratoi ac i roi'r seilwaith ar waith. Fodd bynnag, gyda'r cyhoeddiad heddiw yn tanlinellu ymrwymiad y pedair gwlad i symud ymlaen gyda chynllun a nodi'r meysydd manwl o ryngweithredu, byddwn yn tanlinellu'r angen i'r diwydiant ddechrau paratoadau ar unwaith.

Yn y cyfamser, fel llywodraeth byddwn yn parhau i baratoi ar gyfer rhoi cynllun dychwelyd ernes ar waith yng Nghymru. Wrth ddatblygu ein cynllun, ein bwriad o hyd yw cyflwyno cynllun sy'n unol â'n hymrwymiadau sy'n cwmpasu alwminiwm, dur, gwydr a phlastig PET. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyson drwyddi draw, ac nid yw wedi newid - ac mae'n parhau'n gyson â'r safbwynt yr ymgynghorwyd â hi ar y cyd â Llywodraeth y DU, pan atebodd nifer llethol o ymatebwyr (86%) eu bod yn cefnogi cynnwys gwydr. Mae hefyd yn parhau i fod yn gyson â dyluniad terfynol y cynllun, a gytunwyd ac a gyhoeddwyd ar y cyd â Llywodraeth y DU yn dilyn yr ymgynghoriad ac sy'n gyson â'r dull a ffefrir gan Lywodraeth yr Alban.

Sylwaf hefyd, yn anffodus, nad yw Llywodraeth y DU wedi ymateb i alwadau gan y diwydiant am gysondeb yn y deunyddiau a gwmpesir drwy ail-werthuso ei phenderfyniad i wyro oddi wrth y dull cyffredin y cytunwyd arno yn flaenorol. Fodd bynnag, rydym yn parchu mai mater i Lywodraeth y DU yn y maes datganoledig hwn yw penderfynu pa fath o gynllun dychwelyd ernes sy'n gweithio orau i Loegr; ac yn yr un modd ein cyfrifoldeb ni yw penderfynu ar ffurf y cynllun dychwelyd ernes i Gymru. Rwyf hefyd yn cydnabod bod y cyd-destun gwahanol iawn yn Lloegr yn golygu y gellir sicrhau enillion sylweddol mewn ailgylchu o hyd, a hynny o gynllun culach a llai uchelgeisiol. Hyd yn oed os bydd cwestiynau ynghylch ei effeithiolrwydd wrth gefnogi'r broses bontio i sero net yn parhau.

O safbwynt Cymru, mae ein gwaith ailgylchu sydd eisoes gyda'r gorau yn y byd yn ein rhoi mewn sefyllfa wahanol, gan olygu bod angen dull mwy uchelgeisiol arnom os ydym am gyfiawnhau'r buddsoddiad sylweddol a'r newid mewn ymddygiad defnyddwyr sy'n angenrheidiol ar gyfer cynllun dychwelyd ernes. Mae hefyd yn ein rhoi mewn sefyllfa unigryw, heb unrhyw enghreifftiau eraill lle mae cynllun dychwelyd ernes wedi'i gyflwyno i genedl sydd eisoes yn ailgylchu lefel uchel o'i gwastraff. Rwy'n nodi eto bod llinell sylfaen a thirwedd Cymru yn wahanol i wledydd eraill y DU. Mae ein Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni edrych y tu hwnt i'r tymor byr a sicrhau bod ein penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae'r dystiolaeth o safbwynt gwydr yn glir, gyda dros 50 o enghreifftiau rhyngwladol llwyddiannus o gynlluniau dychwelyd ernes lle mae'r mwyafrif llethol yn cynnwys gwydr fel mater o drefn. Ni ddylai Cymru orfod bodloni am unrhyw beth is na safon arferion gorau rhyngwladol, ond mae'n hanfodol os ydym am barhau i wneud cynnydd yn erbyn ein llinell sylfaen a sicrhau y bydd y cynllun yn effeithiol wrth gefnogi'r newid i sero net.

Ar ôl edrych ar gynlluniau rhyngwladol fel y rhai yn y Ffindir, Estonia, Denmarc, Lithwania, yr Unol Daleithiau, Canada ac Awstralia, mae'n drawiadol bod yr enghreifftiau gorau nid yn unig yn cynnwys gwydr ond eisoes yn cefnogi ailddefnyddio poteli gwydr. Fel y cyfeirir ato yn nheitl ein strategaeth economi gylchol, *Mwy nag Ailgylchu*, ac fel y tanlinellir yn ymrwymiadau ein rhaglen lywodraethu, mae cefnogi ailddefnyddio mwy eang yn hanfodol os ydym am allu symud i economi gylchol a phontio i sero net. Gyda'r cynlluniau dychwelyd ernes rhyngwladol gorau eisoes yn cefnogi hyd at 60% o boteli gwydr i'w hailddefnyddio, mae hyn yn trawsnewid y deunydd mwyaf dwys o ran ynni a charbon i'r opsiwn cyfredol mwyaf cynaliadwy. Mae hynny'n dod â buddion i fusnesau a defnyddwyr fel ei gilydd.

Byddai eithrio gwydr, tra bod yr holl ddeunyddiau eraill yn cael eu cynnwys, yn annheg, a gallai hynny arwain at gynhyrchwyr yn newid deunydd am opsiynau llai ecogyfeillgar ac uwch o ran carbon, a byddai hefyd yn eithrio'r opsiwn posibl mwyaf cynaliadwy ar hyn o bryd**.** Mae perygl hefyd o rwystro gallu'r sector gwydr i bontio ac aros yn gystadleuol, gyda deunydd o ansawdd uchel wedi'i ddidoli yn hanfodol i ddarparu cynnwys wedi'i ailgylchu yn erbyn y gofynion cyfreithiol a fydd ar waith beth bynnag. Mae hefyd yn ychwanegu cymhlethdod i ddefnyddwyr - gydag un cynllun sy'n cynnwys pob math o ddeunydd yn llawer symlach. Mater o amser yw cynnwys gwydr. A gan fod Cymru'n barod i gymryd y camau hyn i gynnwys gwydr, a chefnogi llwybr i ailddefnyddio, gallwn ddarparu dysgu amhrisiadwy i'r gwledydd sydd o'n cwmpas.

Er mai ein dewis ni yw'r cynllun wedi'i alinio y cytunwyd arno yn flaenorol, nodaf y bygythiad y mae Llywodraeth y DU wedi'i wneud i ailadrodd yr hyn a wnaethant yn yr Alban trwy ddefnyddio Deddf y Farchnad Fewnol i gyfyngu ar ein gallu i fynd ymhellach a gosod cynllun dychwelyd ernes gwanach ar Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi rheoleiddio'r farchnad fewnol yn briodol, ac rydym yn cytuno bod angen ei diogelu. Fodd bynnag, fel y gwelir mewn enghreifftiau rhyngwladol o wahanol ddulliau o gyflwyno cynlluniau dychwelyd ernes o fewn un farchnad - gan gynnwys gan genhedloedd bach sydd â ffiniau meddal - mae cyflwyno gwahanol gynlluniau sy'n ymateb i'r gwahanol gyd-destunau yn ein gwledydd yn amlwg yn ymarferol.

Ar ben hynny, mae'r hanes hyd yma yn yr union faes polisi hwn yn un lle mae llywodraethau datganoledig yn gallu defnyddio offer datganoli i arloesi wedi ychwanegu gwerth sylweddol i'r DU gyfan. Yng Nghymru, rydym yn haeddiannol falch o'r ffaith mai ni oedd y cyntaf yn y DU i gyflwyno tâl am fagiau siopa. Mae'r llwyddiant ysgubol hwnnw yn golygu bod gweddill y DU wedi mabwysiadu'r un dull gweithredu, gan dynnu sylw at y ffaith bod dulliau peilot mewn meysydd datganoledig yn gallu ychwanegu gwerth sylweddol i'r DU gyfan. Mae'r dull o ymdrin â'r gwaharddiadau ar blastig untro yn enghraifft fwy diweddar arall lle mae'r Llywodraethau datganoledig yn y DU yn sbarduno newid a chyd-destun cynlluniau dychwelyd ernes, yr wythnos diwethaf cyhoeddais ganlyniad cadarnhaol cynllun dychwelyd ernes digidol tref gyfan cyntaf y byd yn Aberhonddu.

Nid yw cam-ddefnyddio Deddf Marchnad Fewnol y DU i gyfyngu ar ddatganoli yn ymwneud â'r farchnad - fel y gwelwyd wrth i Lywodraeth y DU wrthod ail-edrych ar ei phenderfyniad i ddargyfeirio oddi wrth y sefyllfa gyffredin. Mae ein gwrthwynebiad i'r Ddeddf yn tarddu o'r ffaith y gellir ei chamddefnyddio gan ei bod yn rhoi yr holl bŵer i Lywodraeth y DU ac yn mynd ymhell y tu hwnt i'r strwythurau sydd eu hangen i sicrhau cydweithrediad economaidd a rheoleiddiol rhwng gwledydd y DU. Mae arloesi yn rhan allweddol o farchnad gyffredin lwyddiannus; nid yw'n fanteisiol i'r DU gyfan i rwystro gallu Cymru i arloesi a cheisio ei chlymu at yr elfen gyffredin. Ni ddylid defnyddio'r Ddeddf y Farchnad Fewnol i geisio gosod polisi ar lywodraethau datganoledig, gwaeth beth yw ein nodau polisi ein hunain neu gyd-destun domestig gwahanol iawn.

Wrth symud ymlaen, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithio'n gadarnhaol ac yn adeiladol mewn partneriaeth fel pedair cenedl i ddarparu'r cynllun dychwelyd ernes ledled y DU fel yr ydym wedi ei wneud trwy gydol y broses. Yn ogystal â'r ystod o feysydd lle'r ydym ar y cyd wedi cytuno ar y trefniadau rhyngweithredu a gyhoeddir heddiw, er mwyn sicrhau'r aliniad mwyaf posibl byddwn yn tynnu o ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon wrth ddrafftio'r ddeddfwriaeth ar gyfer cynllun Cymru.

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau â'n paratoadau, gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cynhyrchwyr, manwerthwyr a busnesau eraill i ddatblygu'r cynllun fel rhan allweddol o symud at economi gylchol. Yn ogystal â pharhau â'n gwaith yn treialu potensial dull digidol fel rhan o gynllun dychwelyd ernes, rydym yn gweithio gyda'r diwydiant i gyflwyno cynllun peilot ar gyfer ailddefnyddio gan dynnu ar y dystiolaeth o enghreifftiau llwyddiannus yr ydym wedi'u gweld yn gweithio mewn gwledydd tebyg i'n gwlad ni.

Ein nod yw cyflwyno cynllun sy'n seiliedig ar arferion gorau rhyngwladol, a fydd yn helpu i fynd i'r afael â phroblem sbwriel, a hefyd yn cefnogi ein diwydiant diodydd i bontio a bod yn wydn ac yn gystadleuol mewn economi fyd-eang sy'n datgarboneiddio. Rhaid iddo hefyd fod yn effeithiol wrth helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur trwy ddysgu o'r datrysiadau hysbys sy'n cael eu darparu'n llwyddiannus mewn llefydd eraill.

Mae Cymru eisoes yn genedl sy'n ailgylchu. Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i'n cynllun dychwelyd ernes ein helpu i gymryd cam pellach ymlaen. Gall cynllun dychwelyd ernes Cymru ddisgwyl bod yn arloesol fel y cynllun cyntaf o'i fath sy'n cael ei weithredu mewn gwlad sydd eisoes yn cyflawni cyfraddau ailgylchu uchel.

# Eitem 11

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon